Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Casglu Data Cenedlaethol a threfniadau adrodd 2013/14

## Nodiadau cwblhau technegol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol

## Casglu data asesu Profion Cenedlaethol Cymru a diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

**Fersiwn 1.0**

# Casglu Data Cenedlaethol a threfniadau adrodd 2013/14

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Penaethiaid, athrawon a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, awdurdodau lleol (ALlau) a chyrff cenedlaethol sydd â diddordeb mewn addysg. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn egluro'r trefniadau casglu data ac adrodd ar gyfer blwyddyn ysgol 2013/14. |
| **Camau i'w cymryd** | Rhaid i benaethiaid, athrawon a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac ALlau sicrhau y caiff y gofynion yn y ddogfen hon eu gweithredu erbyn y dyddiadau a nodir. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br><br>Y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 6014<br>e-bost: NDC@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau |

ISBN 978 1 4734 1251 4
© Hawlfraint y Goron Ebrill 2014
WG21732

# Cynnwys

**Rhan 1: Profion Cenedlaethol Cymru (PCC) 2014** **4**
Dyddiadau allweddol 4
**Byrfoddau** **5**
**Trosolwg (PCC)** **6**
**Newidiadau allweddol ar gyfer 2014 (PCC)** **7**
Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol **7**
Profion Rhifedd Cenedlaethol **8**
**Cyflwyniad (PCC)** **9**
**Casglu Data Cenedlaethol ar gyfer PCC** **10**
1.1 Nodi'r disgyblion y mae'n rhaid cyflwyno data PCC ar eu cyfer 10
1.2 Ysgolion y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno data PCC 10
1.3 Grŵp blwyddyn cymwys 10
1.4 Dyddiad cofrestru penodedig 11
1.5 Rhai sy'n gadael yr ysgol 11
1.6 Rhai sy'n ymuno â'r ysgol 11
1.7 Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn dau le 12
1.8 Ysgolion heb unrhyw ddisgyblion cymwys 12
1.9 Ysgolion lle mae'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso 12
1.10 Codau PCC dilys ar gyfer 2014 12
1.11 Cofnodi Asesiadau Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg ac adrodd arnynt 15
1.12 Defnyddio cod 'N' 16
1.13 Defnyddio cod 'X' 16
1.14 Defnyddio cod 'D' 16
1.15 Disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr 17
1.16 Y data sy'n ofynnol 17
1.17 Dilysu gan ysgolion 20
1.18 Ffeiliau Mewnforio PCC 20
1.19 Adrodd 21
1.20 Dalenni Canlyniadau Disgybl PCC 21
1.21 Gwybodaeth gymharol yr ysgol a gwybodaeth gymharol genedlaethol 21
1.22 Y System Drosglwyddo Gyffredin 22
1.23 Trosglwyddo o BCC 6 i BCC 7 23
**Rhan 2: Asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol** **24**
Dyddiadau allweddol 24

**Byrfoddau** **25**

**Trosolwg (asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol)** **26**

**Newidiadau allweddol ar gyfer 2014 (asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol)** **27**

**Cyflwyniad (asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol)** **28**

**Casglu Data Cenedlaethol ar gyfer asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol** **29**

2.1 Nodi'r disgyblion y mae'n rhaid cyflwyno data CDC ar eu cyfer 29

2.2 Ysgolion y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno data CDC 29

2.3 Grŵp blwyddyn cymwys 29

2.4 Dyddiad cofrestru penodedig 30

2.5 Rhai sy'n gadael yr ysgol 30

2.6 Rhai sy'n ymuno â'r ysgol 30

2.7 Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn dau le 31

2.8 Ysgolion heb unrhyw ddisgyblion cymwys 31

2.9 Ysgolion lle mae'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso 31

2.10 Codau dilys deilliannau asesiadau athrawon 31

2.11 Cofnodi asesiadau Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg ac adrodd arnynt 33

2.12 Defnyddio cod 'N' 34

2.13 Defnyddio cod 'D' 34

2.14 Defnyddio codau 'N' a 'D' mewn ffordd amhriodol 35

2.15 Enghreifftiau pan allai cod 'N' fod yn briodol 36

2.16 Disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr 36

2.17 Y data sy'n ofynnol 38

2.18 Dilysu gan ysgolion 40

2.19 Adroddiadau i rieni 41

2.20 Pwerau penaethiaid 41

2.21 Adroddiadau i rieni yn ystod Blynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6 42

2.22 Gofynion adrodd ychwanegol ar ddiwedd BCC 2 a BCC 6 43

2.23 Adroddiadau i rieni yn ystod BCC 7, 8 a 9 43

2.24 Gofynion adrodd ychwanegol ar ddiwedd BCC 9 44

2.25 Gwybodaeth gymharol yr ysgol a gwybodaeth gymharol genedlaethol 44

2.26 Y System Drosglwyddo Gyffredin 45

2.27 Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 46

**Atodiad A: Taflen Canlyniadau Disgyblion** **47**

**Atodiad B: Adroddiadau cymharol ysgolion (heb feincnodi)** **53**

**Atodiad C: Adroddiadau cymharol ysgolion (gan gynnwys meincnodi)** **54**

**Atodiad D: Cyfrifo lefelau pwnc asesiad athrawon – Cyfnod Allweddol 2** **56**

**Atodiad E: Cyfrifo lefelau pwnc asesiad athrawon – Cyfnod Allweddol 3** **59**

# Rhan 1: Profion Cenedlaethol Cymru (PCC) 2014

## Dyddiadau allweddol

| **Dyddiadau Allweddol ar gyfer blwyddyn ysgol 2013/2014** | |
|---|---|
| Ebrill 2014 | Ysgolion i gael canllawiau ar Gasglu Data Cenedlaethol (CDC) ac ar drefniadau adrodd gan Lywodraeth Cymru. |
| 7 Mai 2014 | Menter Cyfnewid Data Cymru (DEWi) ar gael er mwyn lanlwytho ffeiliau CDC a PCC sydd wedi'u cwblhau. |
| 7-13 Mai 2014 | Gweinyddu'r profion darllen a rhifedd cenedlaethol statudol mewn ysgolion. |
| 13 Mai 2014 | Dyddiad cofrestru. |
| 6 Mehefin 2014 | Lanlwytho sgorau crai'r Profion Darllen Cenedlaethol a'r Profion Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol a Rhesymu) i DEWi er mwyn i Lywodraeth Cymru fedru eu lawrlwytho (cofiwch y gallai awdurdod lleol bennu dyddiad cynharach er mwyn hwyluso'r broses o ddilysu'n lleol). |
| **Erbyn 6 Mehefin 2014** | **Y dyddiad cau terfynol** ar gyfer cyflwyno ffeiliau PCC ar ôl iddynt gael eu dilysu (cofiwch y gallai awdurdod lleol bennu dyddiad cau cynharach). |
| Erbyn diwedd tymor yr haf 2014 | Ysgolion yn darparu adroddiadau i rieni. |
| Erbyn diwedd Awst 2014 | Cyhoeddi canlyniadau cenedlaethol ac awdurdodau lleol. |
| Erbyn diwedd Awst 2014 | Adroddiadau Cymharol Ysgolion (gan gynnwys meincnodi) ar gael i ysgolion eu lawrlwytho o DEWi. |
| Tymor Hydref 2014 | Cyhoeddi Setiau Data Craidd Cymru Gyfan i'r ysgolion. |

1. Dylai ysgolion lanlwytho eu ffeiliau gorffenedig a'u dilysu cyn gynted ag y byddant yn barod yn hytrach nag aros am y dyddiad terfynol i'w cyflwyno. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i brosesu ffeiliau a datrys problemau'n gynt.

2. Os caiff ysgolion anhawster i ddefnyddio DEWi (h.y. anghofio enw defnyddiwr/cyfrinair) dylent gysylltu â'u hawdurdod lleol.

3. **Dylech nodi'r dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno'r ffeil i Lywodraeth Cymru. Ni ellir diwygio data ar ôl y dyddiad hwnnw**.

## Byrfoddau

Defnyddir y byrfoddau canlynol drwy'r ddogfen i gyd:

| | |
|---|---|
| MD | Maes/Meysydd Dysgu |
| TC | Targed Cyrhaeddiad |
| DPC | Dangosydd Pynciau Craidd |
| SDG | Y System Drosglwyddo Gyffredin |
| CS | Y Cyfnod Sylfaen |
| DaCS | Dangosydd y Cyfnod Sylfaen |
| DeCS | Deilliant y Cyfnod Sylfaen |
| CA | Cyfnod allweddol |
| ALlau | Awdurdodau Lleol |
| FYL | Fy Ysgol Leol |
| LCC | Lefel Cwricwlwm Cenedlaethol |
| DCC | Deilliant Cwricwlwm Cenedlaethol |
| BCC | Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol |
| NSACLl | Newydd i System Addysg Cymru a Lloegr |
| SCYA | Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg |
| PCGRh | Prawf Cenedlaethol Gweithdrefnol Rhifedd |
| PCRhRh | Prawf Cenedlaethol Rhesymu Rhifedd |
| PRhC | Prawf Rhifedd Cenedlaethol, gan gynnwys y PCGRh a'r PCRhRh |
| PDC | Prawf Darllen Cenedlaethol |
| UCD | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| AA | Asesiad athro |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| PCC | Profion Cenedlaethol Cymru (yn cynnwys pob prawf) |
| CAI | Cymraeg Ail Iaith |

Ysgrifennir pob byrfodd yn llawn pan fydd yn ymddangos am y tro cyntaf yn y ddogfen gyda'r byrfodd mewn cromfachau.

# Trosolwg (PCC)

Mae'r llyfryn hwn yn disodli'r holl ganllawiau blaenorol i ysgolion ar Gasglu Data Cenedlaethol (CDC) ac adrodd. Mae CDC yn ymdrin â phob asesiad disgybl, ond er cyfleuster, mae'r ddogfen hon wedi'i gwahanu'n ddwy ran:

- Rhan 1 - Profion Cenedlaethol Cymru (PCC),
- Rhan 2 – Asesiadau Diwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol

Mae'r ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth bwysig am CDC a'r trefniadau adrodd ar gyfer blwyddyn ysgol 2013/14. Cyhoeddwyd gwybodaeth fanwl am y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol statudol ar wahân dan y teitl *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2014.*

Dyma'r pwyntiau allweddol o ran y prosesau gweinyddol a CDC sy'n gysylltiedig â'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol eleni:

- Dylai ysgolion gyflwyno sgorau crai'r Profion Darllen Cenedlaethol, y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) ar gyfer holl ddisgyblion BCC2-9;

- Dylid trosglwyddo pob ffeil drwy wefan DEWi;

- Dylid cymryd pwyll cyn defnyddio codau D ac N. Os defnyddir y codau hyn mewn ffordd amhriodol, effeithir ar ganlyniadau'r ysgol ac ar y data a gyhoeddir yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan.

Mae Rhan 1 y llyfryn hwn yn rhoi cyngor ac arweiniad ar:

- Yr holl eitemau data ar lefel disgyblion PCC sy'n rhan o'r ffeil PCC;

- Y trefniadau ar gyfer adrodd ar ganlyniadau disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru a Lloegr;

- Y trefniadau lle nad oes gan ysgolion unrhyw ddisgyblion cymwys i'w hasesu neu lle mae'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso o'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

# Newidiadau allweddol ar gyfer 2014 (PCC)

## Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol

- Yn 2013, roedd yn ofynnol i ddisgyblion sefyll:
  - Profion Darllen Cenedlaethol
  - Profion Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol).

- Yn 2014, bydd yn ofynnol i ddisgyblion sefyll:
  - Profion Darllen Cenedlaethol
  - Profion Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol)
  - Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu).

- Ar gyfer 2014, bydd ffeil ReadMe ar DEWi. Mae hon yn rhoi gwybodaeth sylfaenol am gyflwyno ffeiliau Profion Cenedlaethol Cymru (PCC).

- Bydd un ffeil ddata PCC yn cynnwys ‘sgorau crai’, ‘prawf a safwyd’ a ‘dyddiad sefyll y prawf’ ar gyfer pob prawf; caiff hon ei chyflwyno i DEWi. Ar ôl cyflwyno’r ffeil, cynhyrchir Dalen Dilysu Sgorau Crai i ysgolion ei lawrlwytho o DEWi. Bydd y ffeil hon yn cynnwys sgorau crai a data sylfaenol disgyblion ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol, y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a’r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) i ganiatáu dilysu. Os bydd angen diwygio’r ffeil, gellir ei hailgyflwyno tan y dyddiad cau terfynol ar 6ed Mehefin 2014.

- Caiff canlyniadau PCC eu safoni’n fyw rhwng 16eg Mehefin a 4ydd Gorffennaf, a chynhyrchir tablau i gyfeirio atynt. Bydd DEWi yna’n defnyddio’r tablau hyn i gyfrifo’r sgôr safonedig, y sgôr cynnydd a’r gwahaniaeth sgôr cynnydd (Prawf Darllen Cenedlaethol a Phrawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) yn unig) ar gyfer pob disgybl.

- Y ‘gwahaniaeth sgôr cynnydd’ yw’r gwahaniaeth rhwng y sgôr cynnydd ar gyfer 2013 a 2014. Defnyddir y data 2013 sydd gan Lywodraeth Cymru eisoes ynghyd â’r data a gasglwyd drwy gyfrwng CDC yn 2014 i gyfrifo’r gwahaniaeth sgôr cynnydd ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol a’r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol). Gan mai hon yw blwyddyn gyntaf y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) statudol, ni ellir cyfrifo’r gwahaniaeth sgôr cynnydd yn 2014.

- Ar ôl cyfrifo’r sgorau, cynhyrchir ffeil Sgorau wedi’u Cyfrifo a fydd ar gael i’w lawrlwytho o DEWi. Bydd y ffeil hon yn cynnwys yr holl wybodaeth yn y Ddalen Dilysu Sgorau Crai yn ogystal â sgorau wedi’u cyfrifo ar gyfer pob disgybl. Bydd y ffeiliau hyn ar gael i bob ysgol ar yr un pryd.

- Bydd ffeil yn cynnwys yr holl ddata uchod ar lefel awdurdod lleol hefyd ar gael ar DEWi ar yr un pryd.

- Bydd ffeil derfynol mewnforio data (xml) ar gael o DEWi cyn diwedd tymor yr haf, a fydd yn galluogi ysgolion i fewnforio sgorau wedi’u cyfrifo i’w System Gwybodaeth Reoli. Bydd hon yn un ffeil yn cynnwys canlyniadau’r Prawf Darllen Cenedlaethol a’r Prawf Rhifedd Cenedlaethol, o’r enw PCC. Gweler adran 1.18 am ragor o fanylion.

- Dylai fod Dalenni Canlyniadau Disgyblion ar gyfer rhieni i'w cael o system DEWi cyn diwedd tymor yr haf (bydd y dyddiad penodol yn cael ei rannu yn agosach at yr amser). Bydd y rhain yn dangos sgôr safonedig 2014 y disgyblion yn ogystal â siart cynnydd (siartiau cynnydd ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol a'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) yn unig). Bydd modd lawrlwytho'r rhain fesul grŵp oedran a fesul disgybl, a dylid eu rhannu â rhieni cyn diwedd tymor yr haf. Gweler adran 1.20 am ragor o fanylion.

- Bydd Adroddiad Cymharol Ysgolion (gan gynnwys Meincnodi) i'w chael ar DEWi ym mis Awst 2014. Mae'n ddyletswydd statudol ar ysgolion i gyhoeddi'r adroddiad hwn. Gweler adran 1.21 i gael y manylion.

## Profion Rhifedd Cenedlaethol

- Bydd y Profion Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) yn cael eu cynnal ar sail statudol a bydd disgyblion ym Mlynyddoedd Cwricwlwm Cenedlaethol (BCC) 2 i 9 ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru yn eu sefyll am y tro cyntaf ym mis Mai 2014.

- Yn 2013 cyflwynwyd y Prawf Darllen Cenedlaethol i lywodraeth Cymru drwy system DEWi, a chyflwynwyd y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) drwy borthol y Sefydliad Cenedlaethol Er Ymchwil i Addysg (SCYA).

- Ar gyfer 2014, mae cyflenwyr meddalwedd wedi defnyddio un ffeil i ddychwelyd yr holl ddata gofynnol o'r tri prawf, y Prawf Darllen Cenedlaethol, y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu), i Lywodraeth Cymru. Y data sydd yn yr un ffeil hon yw:
  - y sgôr grai
  - y prawf a safwyd
  - dyddiad sefyll y prawf.

  Mae'r ffeil hon yn rhan o Gasglu Data Cenedlaethol.

- Mae adran 1.10 yn rhoi manylion y codau dilys ar gyfer yr eitemau data hyn ar gyfer disgyblion sy'n sefyll y Prawf Rhifedd Cenedlaethol.

- Mae adran 1.16 yn rhoi manylion y gofynion data gorfodol ac opsiynol ar gyfer disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a disgyblion sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Saesneg ym mhob BCC.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch drwy:
E-bost: NDC@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 6014

## Cyflwyniad (PCC)

Rydym yn cyhoeddi setiau data terfynol er mwyn helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i hunanarfarnu, i gynllunio'n strategol ac i osod targedau. Cyhoeddir gwybodaeth meincnodi gyda chanlyniadau'r PCC ar gyfer dechrau tymor yr hydref.

Darperir enghraifft o'r Adroddiad Cymharol Ysgol (gan gynnwys Meincnodi) pan fydd ar gael. Rhaid cyhoeddi'r adroddiadau hyn ym mhrosbectws yr ysgol a'u darparu i'r llywodraethwyr i'w cynnwys yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr. Amgaeir enghreifftiau o'r Dalenni Canlyniadau Disgyblion yn Atodiad A.

Gellir gweld y dyddiadau targed ar gyfer CDC yn yr adran ar Ddyddiadau Allweddol. **Ar ôl cwblhau eu ffeil, dylai ysgolion ei lanlwytho a'i dilysu cyn gynted ag y bydd yn barod yn hytrach nag aros tan y dyddiad cau – drwy wneud hyn, byddant yn helpu'r awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i brosesu ffeiliau ac i ddatrys problemau yn gynt. Dylech nodi'r dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno'r ffeil i Lywodraeth Cymru. Ni ellir diwygio data ar ôl y dyddiad hwnnw.**

# Casglu Data Cenedlaethol ar gyfer PCC

## 1.1 Nodi'r disgyblion y mae'n rhaid cyflwyno data PCC ar eu cyfer

Rhaid i bob disgybl cymwys sefyll y Profion Cenedlaethol Cymru (PCC) perthnasol a rhaid i'r data gael eu cofnodi, eu hadrodd a'u casglu.

Mae'n ofynnol i ysgolion adrodd am hunaniaeth disgyblion drwy ddefnyddio:

- dangosydd grŵp Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (BCC) o'r cofnod Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD);
- nifer y disgyblion ar y gofrestr ar y dyddiad penodedig.

Nodwch y caiff gwiriadau eu cynnal i gadarnhau bod disgyblion yn cael eu hasesu a chanlyniadau'r Prawf Darllen Cenedlaethol yn cael eu hadrodd yn ôl eu hiaith statudol (fel y nodir yn y CYBLD). Tynnir sylw at unrhyw anghysondebau a byddant yn cael eu cyfeirio at yr ALlau er mwyn iddynt fedru ymchwilio iddynt.

## 1.2 Ysgolion y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno data PCC

Rhaid i bob ysgol a gynhelir sydd â disgyblion cymwys ar ei chofrestr ar y dyddiad penodedig wneud datganiad CDC.

## 1.3 Grŵp blwyddyn cymwys

Dylai pob disgybl yn BCC 2 – 9 sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol, y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) perthnasol. Gweler adran 1.11 i gael y manylion.

Y grŵp BCC y caiff y disgybl ei *addysgu* ynddo sy'n pennu a yw'n gymwys i sefyll prawf, nid dyddiad geni'r disgybl.

Caiff rhai disgyblion sefyll PCC y tu allan i'w BCC. **Fodd bynnag, ni ellir cynnwys canlyniadau prawf disgyblion sy'n sefyll prawf 'y tu allan i'w blwyddyn' yn natganiad data'r ysgol**. Bydd ysgolion yn gallu defnyddio'r tablau cyfeirio a gyhoeddir ar wefan Dysgu Cymru ar ôl ffenestr y prawf i ganfod sgorau disgyblion wedi'u cyfrifo. Dylid ystyried cyngor gan yr ALl perthnasol wrth wneud penderfyniad o'r fath, a'i gofnodi cyn danfon pecynnau'r profion.

Ni chaiff disgyblion sefyll PCC ar gyfer BCC uwch.

I gael mwy o ganllawiau am ddisgyblion yn sefyll PCC 'y tu allan i'w blwyddyn' gweler Atodiad 5 *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2014.*

Dylech sicrhau bod yr wybodaeth hon wedi'i chofnodi'n gywir ar System Gwybodaeth Reoli'r ysgol. Bydd meddalwedd ysgolion yn cyfeirio'n awtomatig at yr wybodaeth hon wrth allforio data ar gyfer y ffeil CDC. Ni fydd ysgolion yn gallu newid manylion y disgybl a ddewiswyd i'w allforio heb newid cofnod y disgybl.

## 1.4 Dyddiad cofrestru penodedig

Rhaid i ysgolion gyflwyno canlyniadau PCC ar gyfer pob disgybl cymwys sydd ar y gofrestr ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai ym mlwyddyn academaidd yr adrodd. **13 Mai yw'r dyddiad penodedig yn 2014**.

Nodwyd bod yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai yn briodol oherwydd:

- Ni fydd y dyddiad hwn byth yn ystod gwyliau hanner tymor, nac yn disgyn ar ddiwrnod yn syth ar ôl gŵyl y banc neu wyliau hanner tymor – felly'n mae'n debygol iawn o fod yn ddiwrnod ysgol arferol.

Bydd meddalwedd ysgolion yn nodi'n awtomatig pa ddisgyblion cymwys sydd ar y gofrestr ar y dyddiad penodedig; ni fydd yr ysgol yn gallu newid y dewis hwn ar gyfer proses allforio ffeiliau CDC, felly mae'n bwysig bod y dyddiad derbyn i'r ysgol wedi'i gofnodi'n gywir ar System Gwybodaeth Reoli'r ysgol.

## 1.5 Rhai sy'n gadael yr ysgol

- Lle bo disgybl yn gadael yr ysgol cyn yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai (13 Mai 2014), NID oes yn rhaid i'r ysgol gyflwyno eu canlyniadau PCC i Lywodraeth Cymru nac i'r rhieni. Dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o ran trosglwyddo data i ysgol newydd y disgybl, a thrwy gytundeb ag ysgol newydd y disgybl, bod trefniadau ar waith i roi manylion y deilliannau i'r rhieni.

- Lle bo disgybl yn gadael yr ysgol ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai (13 Mai 2014) neu ar ôl hynny, yr ysgol sy'n gyfrifol o hyd am gyflwyno canlyniadau PCC y disgybl i Lywodraeth Cymru. Dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o ran trosglwyddo data i ysgol newydd y disgybl, a thrwy gytundeb ag ysgol newydd y disgybl, bod trefniadau ar waith i roi manylion y deilliannau i'r rhieni.

## 1.6 Rhai sy'n ymuno â'r ysgol

- Lle bo disgybl yn ymuno â'r ysgol ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai (13 Mai 2014) neu cyn hynny, rhaid i'r ysgol dderbyn cyfrifoldeb am gyflwyno canlyniadau PCC y disgybl i Lywodraeth Cymru ac i'r rhieni.

- Lle bo disgybl yn ymuno â'r ysgol ar ôl yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai (13 Mai 2014), yr ysgol flaenorol sy'n gyfrifol am gyflwyno canlyniadau PCC. Nid oes angen i ysgol newydd y disgybl gyflwyno data i Lywodraeth Cymru. Dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o ran trosglwyddo data o ysgol flaenorol y disgybl, a thrwy gytundeb ag ysgol flaenorol y disgybl, bod trefniadau ar waith i roi manylion y deilliannau i'r rhieni.

## 1.7 Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn dau le

Rhaid i ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn dau le sefyll y PCC rhwng BCC 2 – 9 a rhaid cyflwyno'u canlyniadau fel rhan o'r broses CDC. Rhaid cynnwys hefyd ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru'n rhannol mewn uned cyfeirio disgyblion neu ysgol arbennig.

- Lle bo disgybl wedi'i gofrestru mewn dau leoliad, cyfrifoldeb y lleoliad lle caiff y disgybl ei addysgu fynychaf yw cyflwyno eu canlyniadau PCC statudol. O 2014 ymlaen, caiff disgyblion sydd 'Wedi'u cofrestru mewn dau le-**P**rif' mewn uned cyfeirio disgyblion gyflwyno eu data CDC drwy gyfrwng eu system gwybodaeth reoli neu daenlen wrth gefn.

- Yn y sefyllfa hon, dylai ysgolion gyfathrebu â'i gilydd a dylid cadw cofnodion asesiadau yn y naill leoliad a'r llall.

- Bydd systemau gwybodaeth reoli ysgolion yn defnyddio statws cofrestru disgyblion i ganfod disgyblion priodol i'w cynnwys ar y ffeil PCC. Rhaid cynnwys disgyblion â statws cofrestru '**P**resennol' neu 'Wedi'u cofrestru mewn dau le-**P**rif' yn y datganiad CDC.

## 1.8 Ysgolion heb unrhyw ddisgyblion cymwys

Mae disgwyl i bob ysgol sydd â disgyblion cymwys ddychwelyd canlyniadau PCC.

Os nad oes gan sefydliad unrhyw ddisgyblion sy'n gymwys i sefyll y PCC, hynny yw, dim disgyblion ar y gofrestr yn BCC 2-9 ar 13 Mai 2014, dylai'r pennaeth anfon neges e-bost yn cadarnhau hynny i NDC@wales.gsi.gov.uk

## 1.9 Ysgolion lle mae'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso

Os yw'r holl ddisgyblion cymwys mewn sefydliad wedi'u datgymhwyso, dylid cofnodi'r data hyn yn unol â'r amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 1.14 a dylid dychwelyd yr holl ffeiliau CDC (gan gynnwys PCC) i'r ALl fel rhan o'r broses CDC.

## 1.10 Codau PCC dilys ar gyfer 2014

Rhaid cofnodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob disgybl a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru, ar gyfer pob prawf a safwyd:

- y sgôr grai
- y prawf a safwyd
- dyddiad sefyll y prawf

**Noder y bydd ystod y sgorau crai dilys yn amrywio gan ddibynnu ar ba un o bapurau'r PCC sy'n cael ei sefyll. Dylid bod yn ofalus wrth nodi'r sgôr grai.**

Yn y tablau isod, ceir codau dilys papurau prawf a gwerthoedd sgorau crai ar gyfer pob PCC. Dylai canllawiau gan gyflenwyr meddalwedd System Gwybodaeth Reoli eich ysgol nodi manylion fformat cofnodi dilys ar gyfer yr eitem data 'Dyddiad sefyll y prawf'.

**Y Prawf Darllen Cenedlaethol - Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg:**

| **Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol** | **Dychwelyd canlyniadau'r profion yn orfodol** | | | | **Dychwelyd canlyniad y prawf yn opsiynol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Papur PDC Cymraeg** | Ystod Sgôr Grai PDC Cymraeg | **Papur NRT Saesneg** | Ystod Sgôr Grai NRT Saesneg | **Papur NRT Saesneg** | Ystod Sgôr Grai NRT Saesneg |
| BCC2 | **CA2** | **D, X, 0 – 36** | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **BCC3** | **CA2** | **D, X, 0 – 36** | **-** | **-** | **EA2** | **D, X, 0 - 36** |
| **BCC4** | **CB2** | **D, X, 0 – 34** | **EB2** | **D, X, 0 - 38** | **-** | **-** |
| **BCC5** | **CB2** | **D, X, 0 – 34** | **EB2** | **D, X, 0 - 38** | **-** | **-** |
| **BCC6** | **CC2** | **D, X, 0 – 35** | **EC2** | **D, X, 0 – 41** | **-** | **-** |
| **BCC7** | **CC2** | **D, X, 0 - 35** | **EC2** | **D, X, 0 - 41** | **-** | **-** |
| **BCC8** | **CD2** | **D, X, 0 - 35** | **ED2** | **D, X, 0 - 40** | **-** | **-** |
| **BCC9** | **CD2** | **D, X, 0 - 35** | **ED2** | **D, X, 0 - 40** | **-** | **-** |

**D = Wedi'i Ddatgymhwyso** am unrhyw un o'r rhesymau a restrir yn *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2014*.
**X = Absennol ar ddyddiad y prawf ac am weddill cyfnod y prawf**

**Y Prawf Rhifedd Cenedlaethol - Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Saesneg:**

| **Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol** | **Dychwelyd canlyniad y prawf yn orfodol** | |
|---|---|---|
| | **Papur NRT Saesneg** | Ystod Sgôr Grai NRT Saesneg |
| **BCC2** | **EA2** | **D, X, 0 - 36** |
| **BCC3** | **EA2** | **D, X, 0 - 36** |
| **BCC4** | **EB2** | **D, X, 0 - 38** |
| **BCC5** | **EB2** | **D, X, 0 - 38** |
| **BCC6** | **EC2** | **D, X, 0 - 41** |
| **BCC7** | **EC2** | **D, X, 0 - 41** |
| **BCC8** | **ED2** | **D, X, 0 - 40** |
| **BCC9** | **ED2** | **D, X, 0 - 40** |

**D = Wedi'i Ddatgymhwyso** am unrhyw un o'r rhesymau a restrir yn *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2014*.
**X = Absennol ar ddyddiad y prawf ac am weddill cyfnod y prawf**

**Y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) – Yr holl ddisgyblion**

| **Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol** | **Dychwelyd canlyniadau'r profion yn orfodol Cymraeg NEU Saesneg** | | |
|---|---|---|---|
| | **Papur gweithdrefnol (fersiwn Saesneg)** | **Papur gweithdrefnol (fersiwn Cymraeg)** | Ystod Sgôr Grai y Prawf Gweithdrefnol |
| **BCC2** | **2EP14** | **2CG14** | **D, X, 0 – 28** |
| **BCC3** | **3EP14** | **3CG14** | **D, X, 0 – 30** |
| **BCC4** | **4EP14** | **4CG14** | **D, X, 0 – 35** |
| **BCC5** | **5EP14** | **5CG14** | **D, X, 0 – 35** |
| **BCC6** | **6EP14** | **6CG14** | **D, X, 0 – 35** |
| **BCC7** | **7EP14** | **7CG14** | **D, X, 0 – 35** |
| **BCC8** | **8EP14** | **8CG14** | **D, X, 0 – 36** |
| **BCC9** | **9EP14** | **9CG14** | **D, X, 0 – 36** |

**D = Wedi'i Ddatgymhwyso** am unrhyw un o'r rhesymau a restrir yn *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2014*.
**X = Absennol ar ddyddiad y prawf ac am weddill cyfnod y prawf**

**Y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) – Yr holl ddisgyblion**

| **Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol** | **Dychwelyd canlyniadau'r profion yn orfodol Cymraeg NEU Saesneg** | | |
|---|---|---|---|
| | **Papur rhesymu (fersiwn Saesneg)** | **Papur rhesymu (fersiwn Cymraeg)** | Ystod Sgôr Grai y Prawf Rhesymu |
| **BCC2** | **2ER14** | **2CRh14** | **D, X, 0 – 20** |
| **BCC3** | **3ER14** | **3CRh14** | **D, X, 0 – 20** |
| **BCC4** | **4ER14** | **4CRh14** | **D, X, 0 – 20** |
| **BCC5** | **5ER14** | **5CRh14** | **D, X, 0 – 20** |
| **BCC6** | **6ER14** | **6CRh14** | **D, X, 0 – 20** |
| **BCC7** | **7ER14** | **7CRh14** | **D, X, 0 – 20** |
| **BCC8** | **8ER14** | **8CRh14** | **D, X, 0 – 20** |
| **BCC9** | **9ER14** | **9CRh14** | **D, X, 0 – 20** |

**D = Wedi'i Ddatgymhwyso** am unrhyw un o'r rhesymau a restrir yn *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2014*.
**X = Absennol ar ddyddiad y prawf ac am weddill cyfnod y prawf**

**DS: Mae papurau'r profion rhifedd Cymraeg a Saesneg yn gyfieithiadau uniongyrchol, felly dylai disgyblion sefyll y profion yn yr iaith sydd fwyaf priodol iddynt yn unol â phenderfyniad yr ysgol. Dylid sefyll y prawf Cymraeg neu Saesneg, ond nid y ddau. Dim ond un canlyniad i'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) (Cymraeg NEU Saesneg) y dylid ei ddychwelyd ar gyfer pob disgybl.**

## 1.11 Cofnodi Asesiadau Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg ac adrodd arnynt

Mae'n bwysig bod y cynnydd y mae disgybl yn ei wneud yn ei iaith statudol, Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, yn cael ei asesu a'i gofnodi'n gywir.

Iaith statudol disgyblion at ddibenion asesu yw'r iaith y cânt eu haddysgu drwyddi. At ddibenion PCC bydd System Gwybodaeth Reoli'r ysgol yn defnyddio'r iaith yr addysgwyd y disgybl ynddi fel y nodwyd yng nghofnodion y disgyblion ac yn y CYBLD.

Nodwch y caiff yr asesiadau eu harchwilio i gadarnhau bod disgyblion yn cael eu hasesu a'r canlyniadau yn cael eu hadrodd yn ôl eu hiaith statudol (fel y nodir yn y CYBLD). Tynnir sylw at unrhyw anghysondebau a byddant yn cael eu cyfeirio at yr ALlau er mwyn iddynt fedru ymchwilio iddynt.

<u>**O CYBLD 2014 ymlaen, nid yw codau Astudio Cymraeg 3 (addysgu Cymraeg arall) a 4 (heb addysgu Cymraeg o gwbl) yn godau dilys.**</u>

**Profion Darllen Cenedlaethol**

<u>Disgyblion a addysgir drwy **gyfrwng y Gymraeg:**</u>

Rhaid i bob disgybl yn BCC 2 – 9 sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol Cymraeg.

Rhaid i bob disgybl yn BCC 4 – 9 sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg hefyd.

Nid oes raid i ddisgyblion BCC 2 sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg.

Mae dewis gan ysgolion hefyd i roi'r Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg i ddisgyblion BCC 3 yn ogystal â'r Prawf Darllen Cenedlaethol Cymraeg, a gellir cyflwyno canlyniadau'r disgyblion hyn ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg i Lywodraeth Cymru. Os cânt eu cyflwyno, caiff Dalen Canlyniadau Disgybl ei chynhyrchu ar gyfer pob disgybl er mwyn hysbysu ei rieni, ond ni fydd eu canlyniadau Saesneg yn cael eu cynnwys yng nghanlyniadau lefel yr ysgol yn yr Adroddiadau Cymharol Ysgolion (gan gynnwys Meincnodi) nac yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan.

<u>Disgyblion a addysgir drwy **gyfrwng y Saesneg:**</u>

Rhaid i bob disgybl yn BCC 2 – 9 sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg.

**Y Prawf Rhifedd Cenedlaethol – Gweithdrefnol a Rhesymu**

Rhaid i bob disgybl yn BCC 2 – 9 sefyll y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) **a'r** Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu).

Mae'r papurau prawf ar gael yn Gymraeg a Saesneg ac mae cynnwys y prawf yn union yr un fath yn y ddwy iaith. Dylid sefyll y prawf Cymraeg **neu** Saesneg, ond nid y ddau, a dylid cyflwyno canlyniad y prawf hwnnw. Dim ond **un** canlyniad **Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol)** ac **un** canlyniad **Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu)** y caiff ysgolion eu cael ar gyfer pob disgybl, a chaiff hwn fod yn Gymraeg neu'n Saesneg ni waeth beth fo iaith statudol y disgybl.

## 1.12 Defnyddio cod 'N'

Nid yw'r cod hwn yn ddilys ar gyfer PCC. Dim ond ar gyfer canlyniadau Deilliant y Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau Athrawon y gellir ei ddefnyddio.

## 1.13 Defnyddio cod 'X'

Mae'r cod hwn yn ddilys ar gyfer PCC. Dim ond os yw disgybl yn absennol ar ddyddiad y prawf, ac am weddill y cyfnod a neilltuwyd ar gyfer cynnal y profion, y dylid ei ddefnyddio. Os bydd disgybl yn colli prawf oherwydd absenoldeb ond yn dychwelyd i'r ysgol yn ystod y cyfnod a neilltuwyd ar gyfer cynnal y profion, dylid gwneud trefniadau ar gyfer y disgybl i sefyll y prawf. I gael mwy o ganllawiau am absenoldeb yn ystod y cyfnod a neilltuwyd ar gyfer cynnal y profion, cyfeiriwch at *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2014.*

Caiff disgyblion sy'n cael y cod hwn eu cynnwys yng nghanlyniadau eu hysgol.

## 1.14 Defnyddio cod 'D'

Mae'r cod hwn yn ddilys ar gyfer PCC.

Ar gyfer PCC, dylid defnyddio cod D am y rhesymau a restrir yn *Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol – Llawlyfr gweinyddu profion 2014* yn unig.

Dim ond o dan yr amgylchiadau penodol hyn y mae datgymhwyso'n ddilys, ac **NI** ddylid ei ddefnyddio o dan unrhyw amgylchiadau eraill.

Os yw cod D yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd amhriodol, yna bydd canlyniadau'r ysgol, fel y'u nodir mewn adroddiadau i rieni a llywodraethwyr, ac fel y'u rhoddir i Estyn, yn anghywir.

Caiff disgyblion sy'n cael y cod hwn eu cynnwys yng nghanlyniadau eu hysgol.

## 1.15 Disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr

Rhaid i ddisgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr sefyll PCC oni bai bod rhesymau penodol dros ddatgymhwyso (Gweler adran 1.14). Fodd bynnag, gellir eithrio canlyniadau eu profion wrth gyfrifo ystadegau cyfanredol. Dyma'r meini prawf y dylid eu defnyddio yn achos disgyblion y caniateir peidio â chynnwys eu canlyniadau mewn ystadegau a gyhoeddir ar lefel ysgol ac ar lefel yr Awdurdod Lleol:

- nid Cymraeg na Saesneg yw iaith gyntaf y disgybl; **ac**
- mae'r plentyn wedi cyrraedd o system addysg nad yw'n seiliedig ar y Gymraeg na'r Saesneg; **ac**
- mae'r disgybl wedi cyrraedd y Deyrnas Unedig (DU) ar ddechrau blwyddyn ysgol 2012/2013 neu ar ôl hynny, hynny yw ar 1 Medi 2012 neu ar ôl hynny

Mater i'r pennaeth fydd penderfynu a yw canlyniadau disgybl sy'n bodloni'r meini prawf uchod yn cael eu tynnu o ystadegau cyfanredol yr ysgol a'r ALl. Os gwneir y penderfyniad i dynnu'r canlyniadau oddi yno, bydd hynny'n berthnasol i bob prawf a phob asesiad athro. Ni fydd yn bosibl cynnwys canlyniadau disgybl ar gyfer rhai profion neu asesiadau athrawon ond eu heithrio ar gyfer eraill.

Rhaid i holl ganlyniadau'r disgyblion hyn gael eu hadrodd i'r rhieni a rhaid eu cynnwys yn ffeil datganiad data PCC.

Drwy nodi cofnodion disgybl yn gywir yn System Gwybodaeth Reoli'r ysgol i ddangos bod y disgybl yn bodloni'r meini prawf uchod a thrwy roi dyddiad mynediad dilys, bydd canlyniadau disgyblion o'r fath yn cael eu hepgor wrth gyfrifo ystadegau cyfanredol yr ysgol a'r ALl. **Bydd** eu data yn cael eu cynnwys yn y canlyniadau cenedlaethol, fel y gwnaed yn y blynyddoedd diwethaf.

Pan fydd disgybl cymwys wedi bod yn yr ysgol am fwy na dwy flynedd, ni ellir hepgor ei ganlyniadau bellach. Fodd bynnag, bydd cofnod y disgybl yn dal i ddangos ei fod wedi dod o system addysg nad yw'n seiliedig ar rai Cymru na Lloegr.

## 1.16 Y data sy'n ofynnol

### Profion Darllen Cenedlaethol

Rhaid cofnodi'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob disgybl a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru:

- Sgôr grai ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol
- y prawf a safwyd
- dyddiad sefyll y prawf

Ceir rhestr o'r codau dilys ar gyfer yr eitemau data hyn yn Adran 1.10. Nodir y gofynion adrodd mewn perthynas â chanlyniadau'r Prawf Darllen Cenedlaethol isod.

**Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg:**

| Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol | Pwnc | Disgrifiad o'r Elfen | Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Sgôr Grai Darllen) | Adroddiad i Rieni (Sgôr Safonedig a chynnydd*) |
|---|---|---|---|---|
| **BCC2** | CYM | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC3** | CYM | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC3** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **O** | **G**** |
| **BCC4** | CYM | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC4** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC5** | CYM | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC5** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC6** | CYM | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC6** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC7** | CYM | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC7** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC8** | CYM | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC8** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC9** | CYM | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC9** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |

Gorfodol (G)    Opsiynol (O)

* Dylai fod Dalen Canlyniadau Disgybl ar gyfer pob prawf a safwyd sy'n cynnwys sgôr safonedig disgybl a siart cynnydd i'w cael drwy'r system DEWi cyn diwedd tymor yr haf. Bydd Dalenni Canlyniadau ar gael hefyd ar gyfer disgyblion BCC 3 sydd wedi sefyll papur opsiynol y Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg. Ceir enghraifft o'r Ddalen Canlyniadau Disgybl yn Atodiad A.

** Os bydd disgybl BCC 3 yn sefyll y Prawf Darllen Cenedlaethol Saesneg opsiynol, yna rhaid rhoi'r Ddalen Canlyniadau Disgybl i'r rhieni.

**Disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Saesneg:**

| Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol | Pwnc | Disgrifiad o'r Elfen | Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Sgôr Grai Darllen) | Adroddiad i Rieni (Sgôr Safonedig a chynnydd*) |
|---|---|---|---|---|
| **BCC2** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC3** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC4** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC5** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC6** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC7** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC8** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |
| **BCC9** | ENG | Sgôr Grai Darllen | **G** | **G** |

Gorfodol (G)

* Dylai fod Dalen Canlyniadau Disgybl ar gyfer rhieni sy’n cynnwys sgôr safonedig disgybl a siart cynnydd i’w cael drwy’r system DEWi cyn diwedd tymor yr haf. Ceir enghraifft o adroddiad o’r fath yn Atodiad A.

### Profion Rhifedd Cenedlaethol

Rhaid cofnodi’r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob disgybl a’i chyflwyno i Lywodraeth Cymru:

- Sgôr grai ar gyfer y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a’r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu)
- Y prawf a safwyd
- Dyddiad sefyll y prawf

Ceir rhestr o’r codau dilys ar gyfer yr eitemau data hyn yn Adran 1.10. Nodir y gofynion adrodd mewn perthynas â chanlyniadau’r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) a’r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu) isod.

### Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol)

| **Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol** | **Pwnc** | **Disgrifiad o’r Elfen** | **Adroddiad i Lywodraeth Cymru**<br><br>**(Sgôr Grai Gweithdrefnol)** | **Adroddiad i Rieni**<br><br>**(Sgôr Safonedig a chynnydd*)** |
|---|---|---|---|---|
| **BCC2** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Gweithdrefnol | **G** | **G** |
| **BCC3** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Gweithdrefnol | **G** | **G** |
| **BCC4** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Gweithdrefnol | **G** | **G** |
| **BCC5** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Gweithdrefnol | **G** | **G** |
| **BCC6** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Gweithdrefnol | **G** | **G** |
| **BCC7** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Gweithdrefnol | **G** | **G** |
| **BCC8** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Gweithdrefnol | **G** | **G** |
| **BCC9** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Gweithdrefnol | **G** | **G** |

* Dylai fod Dalen Canlyniadau Disgybl ar gyfer rhieni sy’n cynnwys sgôr safonedig disgybl a siart cynnydd i’w cael drwy’r system DEWi cyn diwedd tymor yr haf. Ceir enghraifft o adroddiad o’r fath yn Atodiad A.

**Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Rhesymu)**

| Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol | Pwnc | Disgrifiad o'r Elfen | Adroddiad i Lywodraeth Cymru<br><br>(Sgôr Grai Gweithdrefnol) | Adroddiad i Rieni<br><br>(Sgôr safonedig*) |
|---|---|---|---|---|
| **BCC2** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu | **G** | **G** |
| **BCC3** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu | **G** | **G** |
| **BCC4** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu | **G** | **G** |
| **BCC5** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu | **G** | **G** |
| **BCC6** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu | **G** | **G** |
| **BCC7** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu | **G** | **G** |
| **BCC8** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu | **G** | **G** |
| **BCC9** | MAT | Sgôr Grai Rhifedd Rhesymu | **G** | **G** |

* Dylai fod Dalen Canlyniadau Disgybl ar gyfer rhieni sy'n cynnwys sgôr safonedig disgybl i'w chael drwy'r system DEWi cyn diwedd tymor yr haf. Ceir enghraifft o adroddiad o'r fath yn Atodiad A.

## 1.17 Dilysu gan ysgolion

Rhaid i ysgolion ddilysu'r sgorau crai y maent wedi'u cyflwyno i DEWi gan ddefnyddio'r Ddalen Dilysu Sgorau Crai. Y dyddiad cau ar gyfer eu cyflwyno yw 6ed Mehefin 2014.

## 1.18 Ffeiliau Mewnforio PCC

Caiff canlyniadau PCC eu safoni'n fyw rhwng 16eg Mehefin a 4ydd Gorffennaf, a chynhyrchir tablau i gyfeirio atynt. Bydd DEWi yna'n defnyddio'r tablau hyn i gyfrifo, ar gyfer pob disgybl, y sgôr safonedig a'r sgôr cynnydd ar gyfer pob prawf, a'r gwahaniaeth sgôr cynnydd ar gyfer y Prawf Darllen Cenedlaethol a'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) yn unig.

Dylai fod un ffeil fewnforio ar gyfer 2014 (xml) ar gael o DEWi cyn diwedd tymor yr haf, i alluogi ysgolion i fewnforio sgorau holl brofion a disgyblion 2014 wedi'u cyfrifo yn ôl i'w System Gwybodaeth Reoli. Bydd y ffeil fewnforio'n un ffeil yn cynnwys canlyniadau'r Prawf Darllen Cenedlaethol a'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol, o'r enw 'PCC'.

Dylech nodi os cyflwynir sgôr grai o '0' ar gyfer disgybl, ni ellir darparu sgôr cynnydd a bydd y sgôr safonedig yn cael ei chofnodi fel *, sy'n golygu 'llai na 70'.

Os bydd sgôr safonedig disgybl yn uwch na 140, caiff ei gofnodi fel **, sy'n golygu 'mwy na 140'.

Hefyd, bydd ffeil fewnforio ar wahân ar gyfer 2013 ar gael i'w lawrlwytho o DEWi a fydd yn cynnwys sgorau cynnydd Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol) 2013. Bydd y ffeil hon yn galluogi ysgolion i fewnforio'r sgorau hyn i'w system gwybodaeth reoli.

## 1.19 Adrodd

Darperir Dalenni Canlyniadau Disgybl i ysgolion, a dylid eu rhannu â rhieni cyn diwedd tymor yr haf. Gellir gweld enghreifftiau o'r rhain yn Atodiad A.

Os darganfyddir unrhyw wallau mewn canlyniadau PCC ar ôl y dyddiad cau i'w cyflwyno, bydd disgwyl i ysgolion gynhyrchu eu Dalenni Canlyniadau Disgybl eu hunain gan ddefnyddio'r templed a ddarparwyd (ar gais) a'r tablau cyfeirio a gyhoeddwyd ar wefan Dysgu Cymru.

Bydd Adroddiadau Cymharol Ysgolion (gan gynnwys Meincnodi) ar gyfer PCC ar gael i ysgolion eu lawrlwytho o DEWi erbyn diwedd mis Awst.

## 1.20 Dalenni Canlyniadau Disgybl PCC

Dylai fod Dalen Canlyniadau Disgybl ar gyfer rhieni i'w chael o system DEWi cyn diwedd tymor yr haf (bydd y dyddiad penodol yn cael ei rannu yn agosach at yr amser). Eleni, byddant yn cynnwys sgôr safonedig y disgybl yn ogystal â siart cynnydd. Ceir enghreifftiau o'r adroddiadau hyn yn Atodiad A.

Mae nodiadau esboniadol yn cyd-fynd â'r Ddalen Canlyniadau Disgybl, ac mae enghraifft o'r rhain hefyd yn Atodiad A.

Bydd modd lawrlwytho'r adroddiadau hyn fesul grŵp blwyddyn ac fesul disgybl. Dylid dosbarthu'r adroddiadau hyn i rieni cyn diwedd tymor yr haf. Os bydd mwy nag un disgybl â'r un enw mewn ysgol, bydd ffeil testun yn cael ei chynnwys a fydd yn eu rhestru, er gwybodaeth. Dylai ysgolion sicrhau bod yr adroddiad cywir yn cael ei anfon at y rhieni cywir.

## 1.21 Gwybodaeth gymharol yr ysgol a gwybodaeth gymharol genedlaethol

Yn unol â'r Rheoliadau, mae'n ofynnol i adroddiadau cymharol safonol a bennir gael eu cyhoeddi ym mhrosbectws yr ysgol, eu darparu i'r llywodraethwyr i'w cynnwys yn adroddiadau blynyddol y llywodraethwyr a'u darparu gyda phob adroddiad blynyddol ar gyfer rhieni neu ddisgyblion sy'n oedolion.

- Pan gaiff canlyniadau cenedlaethol PCC eu cyhoeddi, bydd Adroddiadau Cymharol Ysgolion (gan gynnwys Meincnodi) ar gael i'w lawrlwytho o DEWi. Bydd y rhain yn dangos canlyniadau'r ysgol o'u cymharu â'r ALl perthnasol a Chymru, a bydd ynddynt ddadansoddiad yn unol â meincnodau prydau ysgol am ddim (FSM).

## 1.22 Y System Drosglwyddo Gyffredin

Yn ôl y Rheoliadau sy'n ymdrin â'r System Drosglwyddo Gyffredin, sef Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011, mae gofyn i bennaeth ysgol a gynhelir y mae disgybl yn trosglwyddo ohoni, anfon i ysgol newydd y disgybl set safonol o wybodaeth am y disgybl, ar fformat electronig, i'w rhoi yn uniongyrchol i mewn i System Gwybodaeth Reoli'r ysgol newydd.

Mae data'r Prawf Darllen Cenedlaethol wedi bod ar gael i'w trosglwyddo mewn Ffeil Drosglwyddo Gyffredin ers mis Tachwedd 2013.

Bydd data'r Prawf Rhifedd Cenedlaethol ar gael i'w trosglwyddo mewn Ffeil Drosglwyddo Gyffredin o fis Tachwedd 2014 ymlaen.

**Adroddiadau i'r ysgolion sy'n derbyn disgyblion**

Pan fydd disgybl yn symud o ysgol a gynhelir i ysgol newydd, gan gynnwys ysgol annibynnol, dylid cyflwyno adroddiad am gyraeddiadau'r disgybl, os yw hynny'n rhesymol ymarferol, i bennaeth yr ysgol dderbyn. Mae'n ofynnol gwneud hyn o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl tynnu enw'r disgybl oddi ar gofrestr ei hen ysgol, neu o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn cais am yr adroddiad gan yr ysgol newydd.

Rhaid i'r adroddiad gynnwys:

- canlyniadau PCC y disgybl os ydynt ar gael.

Nid oes dyletswydd i ddarparu adroddiad o'r fath i ysgol newydd y disgybl o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os yw'r disgybl wedi ei gofrestru yn yr ysgol ers llai na phedair wythnos. Er hynny, mewn achos o'r fath, dylai'r pennaeth wneud pob ymdrech i roi i'r ysgol newydd unrhyw adroddiadau a drosglwyddwyd o ysgol neu ysgolion blaenorol y disgybl;

- os nad yw'n rhesymol ymarferol i'r pennaeth ddod o hyd i fanylion ysgol newydd y disgybl. Fodd bynnag, dylai'r pennaeth o leiaf ffonio rhieni'r disgybl ac, os yw eu cyfeiriad yn hysbys, ysgrifennu atynt i holi ymhle y bydd y disgybl yn parhau â'i addysg.

Dosbarthwyd canllawiau ar y System Drosglwyddo Gyffredin i ysgolion ym mis Mai 2006, Cylchlythyr Rhif 18/2006 'Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin'.

Ceir mwy o gyfarwyddyd a gwybodaeth am y System Drosglwyddo Gyffredin ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/dataexchange/school2schoolcommon/?skip=1&lang=cy.

## 1.23 Trosglwyddo o BCC 6 i BCC 7

Bydd cysylltiadau rhwng athrawon BCC 6 a BCC 7 ar ddechrau BCC 7 yn debygol o helpu i sicrhau parhad rhwng y ddwy BCC.

# Rhan 2: Asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

## Dyddiadau allweddol

| **Dyddiadau Allweddol ar gyfer blwyddyn ysgol 2013/2014** | |
|---|---|
| Ebrill 2014 | Ysgolion i gael canllawiau ar Gasglu Data Cenedlaethol ac ar drefniadau adrodd gan Lywodraeth Cymru. |
| 7 Mai 2014 | Menter Cyfnewid Data Cymru (DEWi) ar gael er mwyn lanlwytho ffeiliau CDC sydd wedi'u cwblhau. |
| 13 Mai 2014 | Dyddiad cofrestru. |
| Erbyn 13 Mehefin 2014 | Lanlwytho'r holl asesiadau athrawon i DEWi er mwyn i Lywodraeth Cymru fedru eu lawrlwytho (cofiwch y gallai awdurdod lleol bennu dyddiad cynharach er mwyn hwyluso'r broses o ddilysu'n lleol).<br><br>Bydd Adroddiadau Cymharol rhannol (<u>heb</u> feincnodi) ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3 ar gael i'w lawrlwytho cyn gynted ag y caiff yr asesiadau athrawon eu cyflwyno i DEWi. |
| **Erbyn 4 Gorffennaf 2014** | **Y dyddiad cau terfynol** ar gyfer cyflwyno ffeiliau asesiadau athrawon a ddiwygiwyd ar ôl iddynt gael eu dilysu (cofiwch y gallai awdurdod lleol bennu dyddiad cau cynharach). |
| Erbyn diwedd tymor yr haf 2014 | Ysgolion yn darparu adroddiadau i rieni. |
| Erbyn diwedd Awst 2014 | Cyhoeddi canlyniadau cenedlaethol ac awdurdodau lleol. Data'n cael eu rhoi i Estyn at ddibenion arolygiadau ym mlwyddyn academaidd 2013/14. |
| Erbyn diwedd Awst 2014 | Adroddiadau Cymharol Ysgolion (<u>gan gynnwys</u> meincnodi) ar gael i ysgolion eu lawrlwytho o DEWi. |
| Medi 2014 | Cyhoeddi Setiau Data Craidd Cymru Gyfan i'r ysgolion. |

1. Dylai ysgolion lanlwytho eu ffeiliau gorffenedig a'u dilysu cyn gynted ag y byddant yn barod yn hytrach nag aros am y dyddiad terfynol i'w cyflwyno. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i brosesu ffeiliau a datrys problemau'n gynt.

2. Os caiff ysgolion anhawster i ddefnyddio DEWi (h.y. anghofio enw defnyddiwr/cyfrinair) dylent gysylltu â'u hawdurdod lleol.

3. **Dylech nodi'r dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno'r ffeil i Lywodraeth Cymru. Ni ellir diwygio data ar ôl y dyddiad hwnnw**.

## Byrfoddau

Defnyddir y byrfoddau canlynol drwy'r ddogfen i gyd:

| | |
|---|---|
| MD | Maes/Meysydd Dysgu |
| TC | Targed Cyrhaeddiad |
| DPC | Dangosydd Pynciau Craidd |
| SDG | Y System Drosglwyddo Gyffredin |
| CS | Y Cyfnod Sylfaen |
| DaCS | Dangosydd y Cyfnod Sylfaen |
| DeCS | Deilliant y Cyfnod Sylfaen |
| CA | Cyfnod allweddol |
| ALlau | Awdurdodau Lleol |
| FYL | Fy Ysgol Leol |
| LCC | Lefel Cwricwlwm Cenedlaethol |
| DCC | Deilliant Cwricwlwm Cenedlaethol |
| BCC | Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol |
| NSACLl | Newydd i System Addysg Cymru a Lloegr |
| SCYA | Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg |
| PCGRh | Prawf Cenedlaethol Gweithdrefnol Rhifedd |
| PCRhRh | Prawf Cenedlaethol Rhesymu Rhifedd |
| PRhC | Prawf Rhifedd Cenedlaethol, gan gynnwys y PCGRh a'r PCRhRh |
| PDC | Prawf Darllen Cenedlaethol |
| UCD | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| AA | Asesiad athro |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| PCC | Profion Cenedlaethol Cymru (yn cynnwys pob prawf) |
| CAI | Cymraeg Ail Iaith |

Ysgrifennir pob byrfodd yn llawn pan fydd yn ymddangos am y tro cyntaf yn y ddogfen gyda'r byrfodd mewn cromfachau.

## Trosolwg (asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol)

Bydd Rhan 2 y llyfryn hwn yn canolbwyntio ar yr agwedd Asesiadau Diwedd y Cyfnod Sylfaen (CS) a Chyfnodau Allweddol (CA) ar CDC. Anfonwyd gwybodaeth fanwl am y trefniadau asesiadau athrawon (AA) statudol at ysgolion yn gynharach yn y flwyddyn, dan y teitl *Trefniadau asesu statudol ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3*.

Dyma'r pwyntiau allweddol o ran y prosesau gweinyddol a CDC sy'n gysylltiedig ag asesiadau'r CS a'r Cwricwlwm Cenedlaethol eleni:

- Dylid trosglwyddo pob ffeil drwy wefan DEWi;

- Dylai ysgolion gyflwyno Deilliant y Cyfnod Sylfaen (DeCS) ar gyfer y tri Maes Dysgu gorfodol; Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol (PSD), Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu yn Saesneg (LCE) **neu** yn Gymraeg (LCW) a Datblygiad Mathemategol (MDT);

- Dylai ysgolion gyflwyno lefelau targedau cyrhaeddiad yn ogystal â lefelau asesiadau athrawon pwnc ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg yn CA 2 a CA 3;

- Dylai ysgolion gyflwyno lefelau asesiadau athrawon pwnc yn unig ar gyfer mathemateg a gwyddoniaeth yn CA 2 a CA 3;

- Dylai ysgolion gyflwyno data craidd a data nad yw'n ddata craidd yn CA 3 ar lefel disgyblion;

- Dylid cymryd pwyll cyn defnyddio codau D ac N. Os defnyddir y codau hyn mewn ffordd amhriodol, effeithir ar ganlyniadau'r ysgol ac ar y data a gyhoeddir yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ac a roddir i Estyn i'w hystyried cyn arolygiadau.

Mae'r nodiadau hyn yn rhoi cyngor ac arweiniad ar:

- Yr holl eitemau data ar lefel disgyblion sy'n rhan o'r ffeil CDC;
- Y trefniadau ar gyfer adrodd ar ganlyniadau disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru a Lloegr;
- Y trefniadau lle nad oes gan ysgolion unrhyw ddisgyblion cymwys i'w hasesu neu lle mae'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

## Newidiadau allweddol ar gyfer 2014 (asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol)

### 1. Cofrestru ag Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD)

Caiff disgyblion sydd â'u prif gofrestriad (P) mewn UCD gyflwyno eu data CDC drwy gyfrwng eu system gwybodaeth reoli neu daenlen wrth gefn.

### 2. Astudio Cymraeg

Nid yw codau Astudio Cymraeg 3 (addysgu Cymraeg arall) a 4 (heb addysgu Cymraeg o gwbl) yn godau dilys yn y CDC mwyach a chânt eu marcio fel gwallau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch drwy:
E-bost: NDC@wales.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 6014

## Cyflwyniad (asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol)

Rydym yn anelu at gyhoeddi setiau data terfynol cyn diwedd tymor yr haf er mwyn helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i hunanarfarnu, i gynllunio'n strategol ac i osod targedau. Drwy ddilysu cyn diwedd tymor yr haf, mae awdurdodau lleol wedi medru defnyddio data a ddilyswyd ar gyfer yr ysgolion a gynhelir ganddynt yn uniongyrchol o DEWi i ddatblygu dadansoddiadau hunanarfarnu dros dymor yr haf. Am fod gwybodaeth feincnodi hefyd ar gael yr un pryd â'r canlyniadau a chyn dechrau tymor yr hydref roedd hynny hefyd yn helpu i gyflawni'r swyddogaethau uchod. Mae'r data terfynol hefyd yn cael eu hymgorffori yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan a fydd yn cefnogi prosesau hunanarfarnu a gwella perfformiad mewn ysgolion.

Bydd Adroddiadau Cymharol Ysgolion ar gael drwy system DEWi. Bydd hyn yn:

- caniatáu i ysgolion ddilysu data gan ddefnyddio offeryn dadansoddi cyd-destunol mwy ystyrlon
- golygu y bydd adroddiadau ar ddiwedd y CS ac asesiadau athrawon ddiwedd CA 2 a CA 3 ar gael cyn gynted ag y bydd data wedi eu lanlwytho

Mae enghreifftiau o'r adroddiadau hyn i'w gweld yn Atodiad B. Ar yr un adeg ag y caiff y canlyniadau terfynol hyn eu cyhoeddi, caiff yr adroddiadau hyn eu diweddaru gyda thabl meincnodi ychwanegol fel y bo modd gwneud mwy o ddadansoddi cyd-destunol. Rhaid cyhoeddi'r adroddiadau hyn ym mhrosbectws yr ysgol a'u darparu i'r llywodraethwyr i'w cynnwys yn adroddiad blynyddol y llywodraethwyr a'u darparu gyda'r adroddiadau am ddisgyblion i'r rhieni. Amgaeir enghreifftiau o'r adroddiadau hyn yn Atodiad C.

Gellir gweld y dyddiadau targed ar gyfer CDC yn yr adran ar Ddyddiadau Allweddol ar ddechrau'r adran hon. **Ar ôl cwblhau eu ffeil, dylai ysgolion ei lanlwytho a'i dilysu cyn gynted ag y bydd yn barod yn hytrach nag aros tan y dyddiad cau – drwy wneud hyn, byddant yn helpu'r awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i brosesu ffeiliau ac i ddatrys problemau yn gynt. Dylech nodi'r dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno'r ffeil i Lywodraeth Cymru. Ni ellir diwygio data ar ôl y dyddiad hwnnw.**

# Casglu Data Cenedlaethol ar gyfer asesiadau diwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

## 2.1 Nodi'r disgyblion y mae'n rhaid cyflwyno data CDC ar eu cyfer

Mae angen sicrhau bod pob disgybl cymwys yn cael ei asesu yn erbyn y cwricwlwm neu'r asesiad perthnasol a bod y data'n cael eu cofnodi, eu hadrodd a'u casglu.

Mae'n ofynnol i ysgolion adrodd am hunaniaeth disgyblion drwy ddefnyddio:
- dangosydd grŵp Blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (BCC) o'r cofnod Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD);
- nifer y disgyblion ar y gofrestr ar y dyddiad penodedig.

## 2.2 Ysgolion y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno data CDC

Rhaid i bob ysgol a gynhelir sydd â disgyblion cymwys ar ei chofrestr ar y dyddiad penodedig wneud datganiad CDC.

## 2.3 Grŵp blwyddyn cymwys

Rhaid i bob disgybl sydd ym mlwyddyn olaf y CS, hynny yw BCC 2, gael ei asesu yn erbyn Deilliant y Cyfnod Sylfaen ar gyfer pob Maes Dysgu perthnasol.

Rhaid i bob disgybl ym mlwyddyn olaf CA 2/3, hynny yw BCC 6/9 gael Asesiad Athro ym mhob pwnc a tharged cyrhaeddiad perthnasol.

Y grŵp BCC y caiff y disgybl ei *addysgu* ynddo sy'n pennu a yw'n gymwys i gael ei asesu, nid dyddiad geni'r disgybl.

O ran Systemau Gwybodaeth Reoli ysgolion, bydd y disgyblion hyn yn cael eu cofnodi fel rhai a addysgir yn:

- Cyfnod Sylfaen – BCC 1
- Cyfnod Sylfaen – BCC 2
- Cyfnod Allweddol 2 – BCC 3
- Cyfnod Allweddol 2 – BCC 4
- Cyfnod Allweddol 2 – BCC 5
- Cyfnod Allweddol 2 – BCC 6
- Cyfnod Allweddol 3 – BCC 7
- Cyfnod Allweddol 3 – BCC 8
- Cyfnod Allweddol 3 – BCC 9

Dylech sicrhau bod yr wybodaeth hon wedi'i chofnodi'n gywir ar System Gwybodaeth Reoli'r ysgol. Bydd meddalwedd ysgolion yn cyfeirio'n awtomatig at yr wybodaeth hon wrth allforio data ar gyfer y ffeil CDC. Ni fydd ysgolion yn gallu newid manylion y disgybl a ddewiswyd i'w allforio heb newid cofnod y disgybl.

**Nodwch y caiff gwiriadau eu cynnal i gadarnhau bod disgyblion yn cael eu hasesu a'r canlyniadau yn cael eu hadrodd yn ôl eu hiaith statudol (fel y nodir yn y CYBLD). Tynnir sylw at unrhyw anghysondebau a byddant yn cael eu cyfeirio at yr ALlau er mwyn iddynt fedru ymchwilio iddynt.**

## 2.4 Dyddiad cofrestru penodedig

Rhaid i ysgolion gyflwyno canlyniad AA ar gyfer pob disgybl cymwys sydd ar y gofrestr ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai ym mlwyddyn academaidd yr adrodd. **13 Mai yw'r dyddiad penodedig yn 2014**.

Nodwyd bod yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai yn briodol oherwydd:

- Ni fydd y dyddiad hwn byth yn ystod gwyliau hanner tymor, nac yn disgyn ar ddiwrnod yn syth ar ôl gŵyl y banc neu wyliau hanner tymor – felly'n mae'n debygol iawn o fod yn ddiwrnod ysgol arferol.

- Dylai ysgolion dderbyn ffeil drosglwyddo gyffredin a chofnodion addysgol cyn pen 15 diwrnod ysgol ar ôl i'r disgybl gael ei roi ar y gofrestr – felly, bydd ganddynt wybodaeth am berfformiad addysgol blaenorol y disgybl er mwyn eu helpu i'w asesu.

- Os yw disgybl yn cyrraedd ar y diwrnod olaf (sef yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai), bydd gan yr ysgolion dros bum wythnos o gyswllt â'r disgybl i helpu i lywio eu gwaith asesu.

Bydd meddalwedd ysgolion yn nodi'n awtomatig pa ddisgyblion cymwys sydd ar y gofrestr ar y dyddiad penodedig; ni fydd yr ysgol yn gallu newid y dewis hwn ar gyfer proses allforio ffeiliau CDC, felly mae'n bwysig bod y dyddiad derbyn i'r ysgol wedi'i gofnodi'n gywir ar System Gwybodaeth Reoli'r ysgol.

## 2.5 Rhai sy'n gadael yr ysgol

- Lle bo disgybl yn gadael yr ysgol cyn yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai (13 Mai 2014), NID oes yn rhaid i'r ysgol gyflwyno eu canlyniadau AA i Lywodraeth Cymru nac i'r rhieni. Dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o ran trosglwyddo data i ysgol newydd y disgybl, a thrwy gytundeb ag ysgol newydd y disgybl, bod trefniadau ar waith i roi manylion y deilliannau i'r rhieni.

- Lle bo disgybl yn gadael yr ysgol ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai (13 Mai 2014) neu ar ôl hynny, yr ysgol sy'n gyfrifol o hyd am gyflwyno canlyniadau AA y disgybl i Lywodraeth Cymru. Dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o ran trosglwyddo data i ysgol newydd y disgybl, a thrwy gytundeb ag ysgol newydd y disgybl, bod trefniadau ar waith i roi manylion y deilliannau i'r rhieni.

## 2.6 Rhai sy'n ymuno â'r ysgol

- Lle bo disgybl yn ymuno â'r ysgol ar yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai (13 Mai 2014) neu cyn hynny, rhaid i'r ysgol dderbyn cyfrifoldeb am gyflwyno canlyniadau AA y disgybl i Lywodraeth Cymru ac i'r rhieni.

- Lle bo disgybl yn ymuno â'r ysgol ar ôl yr ail ddydd Mawrth ym mis Mai (13 Mai 2014), yr ysgol flaenorol sy'n gyfrifol am gyflwyno canlyniadau AA. Nid oes angen i ysgol newydd y disgybl gyflwyno data i Lywodraeth Cymru. Dylai ysgolion sicrhau eu bod wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion o ran trosglwyddo data o ysgol flaenorol y disgybl, a thrwy gytundeb ag ysgol flaenorol y disgybl, bod trefniadau ar waith i roi manylion y deilliannau i'r rhieni.

## 2.7 Disgyblion sydd wedi'u cofrestru mewn dau le

Rhaid i ddisgyblion cymwys sydd wedi'u cofrestru mewn dau le gael eu hasesu ar ddiwedd y CS neu'r CA a rhaid cyflwyno'u canlyniadau fel rhan o'r broses CDC. Rhaid cynnwys hefyd ddisgyblion sydd wedi'u cofrestru'n rhannol mewn uned cyfeirio disgyblion neu ysgol arbennig.

- Lle bo disgybl wedi'i gofrestru mewn dau leoliad, cyfrifoldeb y lleoliad lle caiff y disgybl ei addysgu fynychaf yw cyflwyno eu deilliannau AA statudol. O 2014 ymlaen, caiff disgyblion sydd 'Wedi'u cofrestru mewn dau le-**P**rif' mewn uned cyfeirio disgyblion gyflwyno eu data CDC drwy gyfrwng eu system gwybodaeth reoli neu daenlen wrth gefn.
- Yn y sefyllfa hon, dylai ysgolion gyfathrebu â'i gilydd a dylid cadw cofnodion asesiadau yn y naill leoliad a'r llall.
- Bydd systemau gwybodaeth reoli ysgolion yn defnyddio statws cofrestru disgyblion i ganfod disgyblion priodol. Rhaid cynnwys disgyblion â statws cofrestru '**P**resennol' neu 'Wedi'u cofrestru mewn dau le-**P**rif' yn y datganiad CDC.

## 2.8 Ysgolion heb unrhyw ddisgyblion cymwys

Mae disgwyl i bob ysgol sydd â disgyblion cymwys ddychwelyd canlyniadau diwedd CS neu CA.

Os nad oes gan sefydliad unrhyw ddisgyblion sy'n gymwys i gael asesiad diwedd CS neu CA, hynny yw, dim disgyblion ar y gofrestr yn BCC 2, 6 na 9 ar 13 Mai 2014, dylai'r pennaeth anfon neges e-bost yn cadarnhau hynny i NDC@wales.gsi.gov.uk.

## 2.9 Ysgolion lle mae'r holl ddisgyblion wedi'u datgymhwyso

Os yw'r holl ddisgyblion cymwys mewn sefydliad wedi'u datgymhwyso, dylid cofnodi'r data hyn yn unol â'r amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 2.13 yn y ddogfen hon a dylid dychwelyd yr holl ffeiliau CDC i'r ALl fel rhan o'r broses CDC.

## 2.10 Codau dilys deilliannau asesiadau athrawon

Mae disgyblion yn cael eu hasesu yn erbyn y Meysydd Dysgu ar ddiwedd y CS.  Mae disgyblion yn cael eu hasesu yn erbyn Lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (LCC) ar ddiwedd CA 2 a CA 3. Yn ogystal â'r deilliannau/lefelau rhifiadol, mae ysgolion yn defnyddio nifer o godau gweinyddol yn ystod y broses asesu, er enghraifft, i nodi a oes

unrhyw ddisgyblion yn gweithio ar lefel is na DeCS 1. ‘Codau deilliannau’ yw’r enw ar y codau alffaniwmerig llawn hyn.

### Y Cyfnod Sylfaen

Ceir yn y tabl canlynol y codau deilliant dilys ar gyfer 2014.

| Deilliant yr Asesiad gan yr Athro | Byrfodd | Cod Deilliant |
|---|---|---|
| Perfformiad yn uwch na Deilliant 6 y Cyfnod Sylfaen | Perfformiad Uwch na DeCS 6 | A |
| Deilliant 6 y Cyfnod Sylfaen | DeCS 6 | 6 |
| Deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen | DeCS 5 | 5 |
| Deilliant 4 y Cyfnod Sylfaen | DeCS 4 | 4 |
| Deilliant 3 y Cyfnod Sylfaen | DeCS 3 | 3 |
| Deilliant 2 y Cyfnod Sylfaen | DeCS 2 | 2 |
| Deilliant 1 y Cyfnod Sylfaen | DeCS 1 | 1 |
| Gweithio tuag at Ddeilliant 1 y Cyfnod Sylfaen | Gweithio tuag at DeCS 1 | W |
| Ni ddyfarnwyd deilliant am resymau ar wahân i ddatgymhwyso | N | N |
| Wedi’i ddatgymhwyso o dan adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002 | D | D |

### Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Ceir yn y tabl canlynol y codau deilliant dilys ar gyfer 2014.

| Graddfa’r Cwricwlwm Cenedlaethol | Byrfodd | Cod Deilliant |
|---|---|---|
| Perfformiad Eithriadol | PE | E |
| Lefel 8 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC8 | 8 |
| Lefel 7 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC7 | 7 |
| Lefel 6 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC6 | 6 |
| Lefel 5 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC5 | 5 |
| Lefel 4 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC4 | 4 |
| Lefel 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC3 | 3 |
| Lefel 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC2 | 2 |
| Lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol | LCC1 | 1 |
| Deilliant 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol | DCC3 | A |
| Deilliant 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol | DCC2 | B |
| Deilliant 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol | DCC1 | C |
| Ni ddyfarnwyd lefel am resymau ar wahân i ddatgymhwyso | N | N |

| | | |
|---|---|---|
| Wedi'i ddatgymhwyso o dan adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002 | D | D |

Gweler Atodiad D ac E am enghreifftiau o'r cyfrifiadau mewn perthynas â lefel pwnc gan ddefnyddio lefelau Deilliannau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

## 2.11 Cofnodi asesiadau Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg ac adrodd arnynt

Mae'n bwysig bod y cynnydd y mae disgybl yn ei wneud yn y Gymraeg Iaith Gyntaf neu yn Saesneg yn cael ei asesu a'i gofnodi'n gywir yn unol â'i iaith statudol.

Iaith statudol disgyblion at ddibenion asesu yw'r iaith y cânt eu haddysgu drwyddi. At ddibenion Casglu Data Cenedlaethol bydd System Gwybodaeth Reoli'r ysgol yn defnyddio'r iaith yr addysgwyd y disgybl ynddi fel y nodwyd yng nghofnodion y disgyblion ac yn y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).

**Nodwch y caiff yr asesiadau eu harchwilio i gadarnhau bod disgyblion yn cael eu hasesu a'r canlyniadau yn cael eu hadrodd yn ôl eu hiaith statudol (fel y nodir yn y CYBLD). Tynnir sylw at unrhyw anghysondebau a byddant yn cael eu cyfeirio at yr ALlau er mwyn iddynt fedru ymchwilio iddynt.**

**O CYBLD 2014 ymlaen, nid yw codau Astudio Cymraeg 3 (addysgu Cymraeg arall) a 4 (heb addysgu Cymraeg o gwbl) yn godau dilys.**

### Y Cyfnod Sylfaen

Mae'n ofynnol i ysgolion asesu disgyblion ar ddiwedd y CS **naill ai** yn LCW (Cymraeg) **neu** yn LCE (Saesneg), gan ddibynnu ar yr iaith y cânt eu haddysgu ynddi (iaith statudol y disgybl). Caiff ysgolion, yn ôl eu disgresiwn, ddewis asesu disgyblion yn y naill iaith a'r llall os yw hynny'n briodol; er hynny, nid yw'n ofynnol iddynt adrodd ar ganlyniadau asesiadau anstatudol fel rhan o'r broses CDC. Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DaCS) ei gyfrifo gan ddefnyddio iaith statudol y disgybl. Cyflawnir y DaCS pan fydd disgybl yn cyrraedd y deilliant a ddisgwylir, sef DeCS 5, yn y 3 maes dysgu gorfodol.

### Cyfnod Allweddol 2 a 3

Mae'n ofynnol i ysgolion asesu eu holl ddisgyblion ar ddiwedd CA 2 a CA 3 mewn Saesneg.

Os caiff disgyblion eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mae'n ofynnol i ysgolion hefyd asesu disgyblion o'r fath o ran y Gymraeg Iaith Gyntaf.

Os oes canlyniadau ar gael ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg, yr uchaf o'r ddau a ddefnyddir i gyfrifo'r Dangosydd Pynciau Craidd (CSI). Fe'i cyfrifir yn awtomatig gan

feddalwedd System Gwybodaeth Reoli'r ysgol. Noder na chaiff canlyniadau'r disgyblion mewn Cymraeg Ail Iaith eu defnyddio wrth gyfrifo'r Dangosydd Pynciau Craidd.

**Noder os nad oes angen asesu gallu iaith disgybl ar gyfer y Gymraeg na'r Saesneg, dylid gadael eu cofnod ar gyfer y pwnc hwn yn wag - PEIDIWCH â defnyddio cod 'D' na chod 'N' o dan yr amgylchiadau hyn. Gweler adran 2.9 am ragor o fanylion. Os bydd y naill god neu'r llall yn cael ei ddefnyddio'n amhriodol, yna bydd canlyniadau'r ysgol, fel y'u cyflwynir mewn adroddiadau i rieni a llywodraethwyr, ac a roddir i Estyn, yn anghywir.**

## 2.12 Defnyddio cod 'N'

Mae'r cod hwn yn ddilys ar gyfer canlyniadau DeCS ac AA.

Yn gyffredinol, NI ddylid defnyddio Cod N oherwydd dylai'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion gael canlyniad DeCS neu AA ar raddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio cod N, megis pan nad oes gan yr athro ddigon o wybodaeth a thystiolaeth i wneud AA.

Yn gyffredinol, hyd yn oed yn achos disgybl sydd â hanes o bresenoldeb gwael, byddem yn disgwyl i asesiad gael ei wneud ar sail tystiolaeth a gwybodaeth a gasglwyd pan oedd y disgybl yn bresennol.

Bydd cod N yn rhan o'r data cyhoeddedig ar lefel ysgol, ar lefel yr ALl ac ar lefel genedlaethol; o'r herwydd, dylid ei ddefnyddio â phwyll a dim ond mewn achosion eithriadol.

Os yw ysgol yn cofnodi nifer sylweddol o godau 'N', bydd gwiriadau dilysu (fel rhan o feddalwedd yr ysgol ac wrth lanlwytho i system DEWi) yn cael eu cynnal i sicrhau dilysrwydd y ffeil. Os defnyddir gormod ar god N, ymchwilir i'r mater er mwyn sicrhau bod y cod yn cael ei ddefnyddio'n gywir.

Dylai ysgolion wneud ymholiadau ynghylch unrhyw gofnodion disgyblion lle cofnodir cod N ar gyfer rhan(nau) o'r cwricwlwm ond lle mae lefelau dilys Deilliant y Cyfnod Sylfaen neu lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol wedi'u cofnodi ar gyfer targedau cyrhaeddiad neu bynciau eraill. Ni fyddem, fel arfer, yn disgwyl i'r sefyllfa hon godi. Gofynnir i awdurdodau lleol fonitro'r defnydd o god N gan ysgolion a gynhelir ganddynt fel y bo modd datrys ymholiadau am y mater hwn yn gynnar yn y broses CDC.

Os yw cod N yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd amhriodol, yna bydd canlyniadau'r ysgol, fel y'u nodir mewn adroddiadau i rieni a llywodraethwyr, ac fel y'u rhoddir i Estyn, yn anghywir.

Caiff disgyblion sy'n cael y cod hwn eu cynnwys yng nghanlyniadau'r ysgol.

## 2.13 Defnyddio cod 'D'

Mae'r cod hwn yn ddilys ar gyfer canlyniadau CS a CA.

Ar ddiwedd y CS a CA, yr unig adeg y dylid defnyddio cod ‘D’ yw pan fo disgybl wedi’i ddatgymhwyso o’r cyfan o’r Cwricwlwm Cenedlaethol, neu ran ohono, o dan amgylchiadau penodol a nodir yn adrannau 364-367 o Ddeddf Addysg 1996, a weithredir bellach drwy adrannau 113-116 o Ddeddf Addysg 2002.

Dim ond o dan yr amgylchiadau penodol hyn y mae datgymhwyso’n ddilys, ac **NI** ddylid ei ddefnyddio o dan unrhyw amgylchiadau eraill.

Os yw cod D yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd amhriodol, yna bydd canlyniadau’r ysgol, fel y’u nodir mewn adroddiadau i rieni a llywodraethwyr, ac fel y’u rhoddir i Estyn, yn anghywir.

Caiff disgyblion sy’n cael y cod hwn eu cynnwys yng nghanlyniadau’r ysgol.

## 2.14 Defnyddio codau ‘N’ a ‘D’ mewn ffordd amhriodol

Nid yw’n briodol defnyddio codau N a D o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Pan nad oes ond angen asesu disgybl yn y CS naill ai mewn LCW (Cymraeg) neu LCE (Saesneg), gan ddibynnu ar ba iaith yw ei iaith statudol (gweler adran 2.11 am ragor o wybodaeth am yr iaith statudol at ddibenion asesu).

- Pan nad oes angen asesu disgybl yn y CS mewn LCW am mai Saesneg yw ei iaith statudol at ddibenion asesu; mewn achosion o’r fath, gellid darparu data dilys ar lefel pwnc ar gyfer Datblygiad yn y Gymraeg (WLD) (gweler adran 2.11 am ragor o wybodaeth am yr iaith statudol at ddibenion asesu).

- Pan nad oes angen asesu disgybl yn y CS ar gyfer WLD am mai LCW yw ei iaith statudol at ddibenion asesu; mewn achosion o’r fath, dylid darparu data dilys ar lefel pwnc ar gyfer LCW a LCE (gweler adran 2.11 am ragor o wybodaeth am yr iaith statudol at ddibenion asesu).

- Pan nad oes angen asesu disgybl yn CA2 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf am mai Saesneg yw ei iaith statudol at ddibenion asesu; mewn achosion o’r fath, dylid darparu data dilys ar lefel pwnc ar gyfer Cymraeg Ail Iaith (gweler adran 2.11 am ragor o wybodaeth am yr iaith statudol at ddibenion asesu).

- Pan nad oes angen asesu disgybl yn CA3 mewn Cymraeg Iaith Gyntaf am mai Saesneg yw ei iaith statudol at ddibenion asesu; mewn achosion o’r fath, dylid darparu data dilys ar lefel pwnc ar gyfer Cymraeg Ail Iaith (gweler adran 2.11 am ragor o wybodaeth am yr iaith statudol at ddibenion asesu).

- Pan nad oes angen asesu disgybl yn CA2 mewn Cymraeg Ail Iaith am mai Cymraeg Iaith Gyntaf yw ei iaith statudol at ddibenion asesu; mewn achosion o’r fath, dylid darparu data dilys ar lefel pwnc ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg (gweler adran 2.11 am ragor o wybodaeth am yr iaith statudol at ddibenion asesu).

- Pan nad oes angen asesu disgybl yn CA3 mewn Cymraeg Ail Iaith am mai Cymraeg Iaith Gyntaf yw ei iaith statudol at ddibenion asesu; mewn achosion o’r fath, dylid

darparu data dilys ar lefel pwnc ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg (gweler adran 2.11 am ragor o wybodaeth am yr iaith statudol at ddibenion asesu).

- Os yw disgybl wedi'i gofrestru mewn dau le ac os chi yw'r ysgol atodol ac os yw prif ysgol y disgybl wedi cofnodi asesiadau diwedd CA ar gyfer y disgybl.

## 2.15 Enghreifftiau pan allai cod 'N' fod yn briodol

- Lle bo'r disgybl wedi symud o ysgol i ysgol nifer o weithiau a bod yr ysgol sy'n gyfrifol am asesu wedi methu â dod o hyd i ffeil drosglwyddo gyffredin y disgybl a/neu ei gofnodion addysgol a lle nad yw'r ysgol wedi cael digon o gyswllt â'r disgybl er mwyn ffurfio barn ddilys.

- Os nad yw'r disgybl, oherwydd salwch, beichiogrwydd neu sefyllfa anarferol arall, wedi mynychu'r ysgol am gyfnod estynedig o amser ac nad aseswyd unrhyw lefel CC flaenorol. Yn gyffredinol, byddem yn disgwyl dyfarnu lefel heblaw N os bu'r disgybl yn bresennol am dros draean y flwyddyn academaidd bresennol.

**Os yw codau N neu D yn cael eu defnyddio mewn ffordd amhriodol, yna bydd canlyniadau'r ysgol, fel y'u nodir mewn adroddiadau i rieni a llywodraethwyr, ac fel y'u rhoddir i Estyn, yn anghywir.**

## 2.16 Disgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr

Rhaid i ddisgyblion sy'n newydd i system addysg Cymru neu Loegr gael eu hasesu ar ddiwedd y CS neu CA. Fodd bynnag, gellir eithrio eu deilliannau asesu wrth gyfrifo ystadegau cyfanredol. Dyma'r meini prawf y dylid eu defnyddio yn achos disgyblion y caniateir peidio â chynnwys eu canlyniadau mewn ystadegau a gyhoeddir ar lefel ysgol ac ar lefel yr Awdurdod Lleol:

- nid Cymraeg na Saesneg yw iaith gyntaf y disgybl; **ac**
- mae'r plentyn wedi cyrraedd o system addysg nad yw'n seiliedig ar y Gymraeg na'r Saesneg; **ac**
- mae'r disgybl wedi cyrraedd y Deyrnas Unedig (DU) ar ddechrau blwyddyn ysgol 2012/2013 neu ar ôl hynny, hynny yw ar 1 Medi 2012 neu ar ôl hynny

Mater i'r pennaeth fydd penderfynu a yw canlyniadau disgybl sy'n bodloni'r meini prawf uchod yn cael eu tynnu o ystadegau cyfanredol yr ysgol a'r ALl. Os gwneir y penderfyniad i dynnu'r canlyniadau oddi yno, bydd y penderfyniad hwnnw'n berthnasol i bob pwnc. Ni fydd modd cynnwys canlyniadau disgyblion ar gyfer un pwnc a'u tynnu oddi yno ar gyfer y lleill.

Rhaid i ganlyniadau ar gyfer y disgyblion hyn gael eu hadrodd i'r rhieni a rhaid eu cynnwys yn ffeil datganiad data'r CDC.

Drwy nodi cofnodion disgybl yn gywir yn System Gwybodaeth Reoli'r ysgol i ddangos bod y disgybl yn bodloni'r meini prawf uchod a thrwy roi dyddiad mynediad dilys, bydd canlyniadau disgyblion o'r fath yn cael eu hepgor wrth gyfrifo ystadegau cyfanredol yr

ysgol a’r ALl. **Bydd** eu data yn cael eu cynnwys yn y canlyniadau cenedlaethol, fel y gwnaed yn y blynyddoedd diwethaf.

Pan fydd disgybl cymwys wedi bod yn yr ysgol am fwy na dwy flynedd, ni fydd ei ganlyniadau’n cael eu hepgor bellach. Fodd bynnag, bydd cofnod y disgybl yn dal i ddangos bod y disgybl wedi dod o system addysg nad yw’n seiliedig ar rai Cymru na Lloegr.

## 2.17 Y data sy'n ofynnol

**Y Cyfnod Sylfaen**

| **Maes Dysgu** | **Adroddiad i Lywodraeth Cymru (deilliant rhifiadol yn unig)** | **Adroddiad i Rieni** | |
|---|---|---|---|
| | | **Deilliant rhifiadol** | **Naratif** |
| Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (PSD) | G | G | O |
| Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Gymraeg (LCW) **NEU** Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg (LCE) | G | G | O |
| Datblygiad mathemategol (MDT) | G | G | O |
| Datblygiad creadigol (CRD) | O | O | G |
| Datblygiad corfforol (PDT) | O | O | G |
| Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd (KUW) | O | O | G |
| Datblygiad yn y Gymraeg (WLD) os yw'r disgybl yn cael ei asesu mewn LCE | O | O | G |

Gorfodol (G)        Opsiynol (O)

**Y Cyfnod Sylfaen – data anstatudol**

Nid oes yn rhaid rhoi DeCS rhifiadol i'r meysydd dysgu CS isod, gan nad yw'n ofynnol eu hadrodd i Lywodraeth Cymru. Er hynny, caiff yr ysgol roi DeCS rhifiadol i'r meysydd dysgu hyn os yw'n dymuno gwneud hynny:

- Datblygiad creadigol (CRD)
- Datblygiad corfforol (PDT)
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd (KUW)
- Datblygiad yn y Gymraeg (WLD).

Ar gyfer y meysydd dysgu hyn, mae'n ofynnol i ysgolion ddarparu adroddiad naratif ar gyfer y rhieni ond nid oes unrhyw ofyniad statudol i adrodd am ddeilliant rhifiadol mewn perthynas â CDC.

**Cyfnod Allweddol 2**

| Pwnc | Disgrifiad o’r Elfen | Adroddiad i Lywodraeth Cymru | Adroddiad i Rieni |
|---|---|---|---|
| ENG | Saesneg fel pwnc | G | G |
| ENG | • Llafaredd | G | G |
| ENG | • Darllen | G | G |
| ENG | • Ysgrifennu | G | G |
| [1]CYM | Cymraeg fel pwnc | G | G |
| CYM | • Llafaredd | G | G |
| CYM | • Darllen | G | G |
| CYM | • Ysgrifennu | G | G |
| MAT | Mathemateg fel pwnc | G | G |
| SCI | Gwyddoniaeth fel pwnc | G | G |
| [2]WEL | Cymraeg Ail Iaith | O | G |
| WEL | • Llafaredd | O | G |
| WEL | • Darllen | O | G |
| WEL | • Ysgrifennu | O | G |

Gorfodol (G) Opsiynol (O)

Bydd y System Gwybodaeth Reoli yn cyfrifo’r CSI yn awtomatig.

**Cyfnod Allweddol 3**

| Pwnc | Disgrifiad o’r Elfen | Adroddiad i Lywodraeth Cymru | Adroddiad i Rieni |
|---|---|---|---|
| ENG | Saesneg fel pwnc | G | G |
| ENG | • Llafaredd | G | G |
| ENG | • Darllen | G | G |
| ENG | • Ysgrifennu | G | G |
| [1]CYM | Cymraeg fel pwnc | G | G |
| CYM | • Llafaredd | G | G |
| CYM | • Darllen | G | G |
| CYM | • Ysgrifennu | G | G |
| MAT | Mathemateg fel pwnc | G | G |
| SCI | Gwyddoniaeth fel pwnc | G | G |
| ART | Celf a Dylunio | G | G |
| DAT | Dylunio a Thechnoleg | G | G |

[1] Ar gyfer dysgwyr sy’n dilyn cwrs astudio Cymraeg Iaith Gyntaf
[2] Os **nad** yw’r disgybl yn cael ei asesu drwy gyfrwng y Gymraeg

| | | | |
|---|---|---|---|
| GEO | Daearyddiaeth | G | G |
| HIS | Hanes | G | G |
| ICT | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | G | G |
| MUS | Cerddoriaeth | G | G |
| PED | Addysg Gorfforol | G | G |
| [2]WEL | Cymraeg Ail Iaith | G | G |
| WEL | • Llafaredd | O | G |
| WEL | • Darllen | O | G |
| WEL | • Ysgrifennu | O | G |
| *MFL** | Iaith Dramor Fodern fel pwnc | G | G |
| *MFL** | • Llafaredd | O | G |
| *MFL** | • Darllen | O | G |
| *MFL** | • Ysgrifennu | O | G |

Gorfodol (G)    Opsiynol (O)

Bydd y System Gwybodaeth Reoli yn cyfrifo'r CSI yn awtomatig.

**Data Cyfnod Allweddol 3 nad yw'n ddata craidd**

Mae'n rhaid i ysgolion gyflwyno data CA3 nad yw'n ddata craidd ar lefel disgybl. Mae hyn yn golygu nad oes angen i ysgolion gyflwyno ffeil ar wahân ar lefel ysgol. Caiff y data nad yw'n ddata craidd ei gynnwys yn awtomatig yn yr un ffeil â'r data am bynciau craidd CA3.

*Dim ond un canlyniad Iaith Dramor Fodern y dylid ei ddychwelyd ar gyfer pob disgybl. Lle bo disgyblion yn astudio mwy nag un iaith dramor fodern yn CA 3, dylai ysgolion benderfynu pa iaith y dylid ei chofnodi at ddibenion yr asesiad statudol.

**Cyfnodau Allweddol 4 a 5**

Ar gyfer 2014 bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gasglu manylion adnabod disgyblion ar ddiwedd CA 4 a 5, sy'n broses a gyflwynwyd yn 2010 i hwyluso'r gwaith o ddadansoddi data ynghylch arholiadau. Diffinnir y disgyblion hyn fel disgyblion yn BCC 11 a/neu sy'n 15 oed ar 31 Awst 2013, a disgyblion sy'n 17 oed ar 31 Awst 2013. Caiff hyn ei ddefnyddio i gasglu data am nifer y disgyblion ar y gofrestr ym mis Mai 2014 er mwyn cael darlun mwy cywir o'r niferoedd yn hytrach na'r hyn a gofnodir yn y CYBLD ym mis Ionawr, sef yr hyn a ddefnyddir ar hyn o bryd wrth gyfrifo.

## 2.18 Dilysu gan ysgolion

Mae'r holl ddata am ddiwedd y CS a CA yn cael eu casglu'n electronig ac mae'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi yn adroddiadau blynyddol y llywodraethwyr ac ym mhrosbectysau'r ysgolion ac ar wefan Fy Ysgol Leol. Felly, rydym yn parhau i gynnwys proses ddilysu ffurfiol.

Gall ysgolion ddilysu eu data CDC cyn gynted ag y byddant wedi cael eu lanlwytho i DEWi. Bydd y cyfnod dilysu ar gyfer CS ac AA yn **dod i ben ar 4 Gorffennaf 2014**. Mae

hyn yn rhoi cyfle i ysgolion wirio'r ffigurau cyfanredol, ac ar ôl iddynt wneud hynny, bernir bod y data'n derfynol a chânt eu defnyddio yn ffigurau cyfanredol yr ALlau, mewn adroddiadau arolygu ysgolion gan Estyn, mewn dangosyddion perfformiad Gwerth Ychwanegol, Fy Ysgol Leol ac yn Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Os oes unrhyw anghysondeb, dylech nodi y bydd angen i ysgolion gyflwyno ffeiliau diwygiedig ar lefel disgyblion i DEWi.

**Dylai ysgolion ddilysu eu data cyn gynted ag y bydd y datganiad yn gyflawn ac ailgyflwyno ffeiliau os oes angen. Bydd arweiniad pellach yn cael ei roi ar DEWi er mwyn cynorthwyo ysgolion yn hyn o beth.**

## 2.19 Adroddiadau i rieni

Mae'n ddyletswydd ar y pennaeth i sicrhau yr anfonir adroddiad ysgrifenedig at rieni pob disgybl o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn ysgol i'w cadw ganddynt. Dylai ysgolion drin pob rhiant yn gyfartal oni bai fod gorchymyn llys yn cyfyngu ar hawl yr unigolyn i arfer ei gyfrifoldebau rhianta. Dylai ysgolion wneud pob ymdrech i roi adroddiad i bob un sy'n 'rhiant[3]' er efallai nad dyma'r person y mae'r ysgol yn ymwneud ag ef o ddydd i ddydd.

## 2.20 Pwerau penaethiaid

Mae gan benaethiaid ryddid i wneud y canlynol:

- cynnwys mewn adroddiad unrhyw wybodaeth bellach ynglŷn â chynnydd y disgybl, y tu hwnt i'r lleiafswm sy'n ofynnol. Mae'n arbennig o bwysig darparu gwybodaeth gyd-destunol mewn adroddiadau ynghylch disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn aml bydd yn briodol ychwanegu at y lleiafswm sylfaenol o wybodaeth trwy roi adroddiad mwy manwl ynglŷn â chynnydd y disgybl mewn perthynas â'r cwricwlwm y mae'n ei ddilyn;

- penderfynu ar fformat adroddiadau i'r rhieni, ac adroddiadau i ysgolion y bydd disgyblion yn symud iddynt;

- trefnu i adroddiad gael ei gyfieithu, neu ei gyfleu yn llafar, i ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg, lle bo hynny'n ymddangos yn angenrheidiol;

- penderfynu pryd i gyflwyno adroddiadau i'r rhieni, cyhyd ag y bo lleiafswm yr wybodaeth sy'n ofynnol yn cael ei hanfon at y rhieni erbyn diwedd tymor yr haf;

- peidio â chynnwys yn yr adroddiad i'r rhieni wybodaeth a allai fod yn gyfrinachol, fod yn niweidiol i'r plentyn neu i'r rhieni, neu gynnwys datgelu gwybodaeth am ddisgybl arall (fel y nodir yn y paragraff dilynol).

Mae gan benaethiaid bwerau penodol i benderfynu peidio â chynnwys rhai mathau o wybodaeth gyfrinachol mewn adroddiadau i'r rhieni. Mae hyn yn ymwneud â gwybodaeth:

---

[3] Mae rhagor o wybodaeth yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 12/2007 "Rhieni a Chyfrifoldeb Rhiant".

- a roddwyd gan unrhyw un heblaw:
  - person a gyflogir gan yr ALl sy'n cynnal yr ysgol
  - athro neu athrawes neu weithiwr cyflogedig arall yn yr ysgol (yn cynnwys seicolegydd addysg a gyflogir dan gytundeb am wasanaethau)
  - swyddog lles addysg
  - y sawl sy'n gofyn am gael yr wybodaeth

- sy'n enwi person (heblaw'r disgybl y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef/hi, neu un o'r rhai a restrir uchod) fel ffynhonnell yr wybodaeth neu fel y person y mae'r wybodaeth yn ymwneud ag ef/hi;

- sydd, ym marn y pennaeth, yn debygol o beri niwed difrifol i'r disgybl dan sylw neu i unrhyw berson arall;

- sy'n berthnasol i achos o gam-drin plentyn neu risg o hynny;

- a fyddai'n datgelu gwybodaeth am ddisgybl heblaw'r disgybl sydd o dan sylw yn yr adroddiad.

## 2.21 Adroddiadau i rieni yn ystod Blynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6

Ar gyfer pob disgybl yn BCC 1, 2, 3, 4, 5 a 6, dylai'r adroddiad gynnwys, o leiaf, yr wybodaeth ganlynol:

- manylion cryno am gynnydd disgybl wrth astudio pynciau, meysydd dysgu a gweithgareddau fel rhan o gwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys holl bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. O flwyddyn academaidd 2013/14 ymlaen, mae hefyd yn ofynnol darparu crynodeb byr o gynnydd disgybl yn erbyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol;

- manylion cynnydd cyffredinol y disgybl;

- crynodeb o gofnod presenoldeb y disgybl;

- manylion y trefniadau i rieni drafod yr adroddiad gydag athrawon yn yr ysgol;

- datganiad sy'n cynnwys y rheswm am ddatgymhwyso, mewn achosion pan fo disgybl wedi'i ddatgymhwyso rhag unrhyw bwnc neu dargedau cyrhaeddiad o dan Adrannau 113-116 o'r Ddeddf Addysg.

Ar gyfer disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, mae'n ofynnol i benaethiaid baratoi adroddiadau ar gyfer adolygiad blynyddol o ddatganiad y disgybl. Mae'r gofyniad statudol hwn wedi'i gynnwys ym Mhennod 9 o God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Os dymuna'r ysgolion, gellir defnyddio'r adroddiadau hyn fel adroddiad blynyddol i'r rhieni ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd gan y disgyblion. Os felly, rhaid i'r penaethiaid sicrhau bod yr adroddiadau a gynhyrchir fel rhan o'r adolygiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yn y rheoliadau ar wybodaeth am ddisgyblion yn yr adran hon.

## 2.22 Gofynion adrodd ychwanegol ar ddiwedd BCC 2 a BCC 6

Rhaid i adroddiadau am ddisgyblion a asesir yn ôl y trefniadau statudol ar ddiwedd BCC 2 a BCC 6 gael eu hanfon allan cyn diwedd tymor yr haf.

Yn ogystal â'r wybodaeth a restrir uchod, rhaid i adroddiadau ar gyfer disgyblion ar ddiwedd BCC 2 a BCC 6 gynnwys:

**Canlyniadau unigol**

Rhaid i bob adroddiad gynnwys:

- lefel cyrhaeddiad y disgybl fel y'i pennwyd gan Asesiadau Athrawon ym mhob pwnc craidd perthnasol;

- sylwadau cryno yn nodi'r hyn y mae'r asesiad yn ei ddangos am gynnydd y disgybl ym mhob pwnc, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau penodol.

## 2.23 Adroddiadau i rieni yn ystod BCC 7, 8 a 9

Ar gyfer pob disgybl yn BCC 7, 8 a 9, dylai'r adroddiad gynnwys o leiaf yr wybodaeth ganlynol:

- manylion cryno am gynnydd disgybl wrth astudio pynciau a gweithgareddau fel rhan o gwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys holl bynciau'r cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. O flwyddyn academaidd 2013/14 ymlaen, mae hefyd yn ofynnol darparu crynodeb byr o gynnydd disgybl yn erbyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol;

- manylion cynnydd cyffredinol y disgybl;

- crynodeb o gofnod presenoldeb y disgybl;

- manylion y trefniadau i rieni drafod yr adroddiad gydag athrawon yn yr ysgol;

- datganiad sy'n cynnwys y rheswm am ddatgymhwyso, mewn achosion pan fo disgybl wedi'i ddatgymhwyso rhag unrhyw bwnc neu dargedau cyrhaeddiad o dan Adrannau 113 – 116 o'r Ddeddf Addysg.

Ar gyfer disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig, mae'n ofynnol i benaethiaid baratoi adroddiadau ar gyfer adolygiad blynyddol o ddatganiad y disgybl. Mae'r gofyniad statudol hwn wedi'i gynnwys ym Mhennod 9 o God Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Os dymuna'r ysgolion, gellir defnyddio'r adroddiadau hyn fel adroddiad blynyddol i'r rhieni ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd gan y disgyblion. Os felly, rhaid i'r penaethiaid sicrhau bod yr adroddiadau a gynhyrchir fel rhan o'r adolygiad blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth a nodir yn yr adran hon.

## 2.24 Gofynion adrodd ychwanegol ar ddiwedd BCC 9

Rhaid i adroddiadau am ddisgyblion a asesir yn ôl y trefniadau statudol ar ddiwedd BCC 9 gael eu hanfon allan cyn diwedd tymor yr haf.

Yn ogystal â'r wybodaeth a restrir yn flaenorol rhaid i adroddiadau ar gyfer disgyblion ar ddiwedd BCC 9 gynnwys yr wybodaeth a nodir isod:

**Canlyniadau unigol**

Rhaid i bob adroddiad gynnwys:

- Lefel cyrhaeddiad y disgybl fel y'i pennwyd gan asesiad athrawon ym mhob un o'r pynciau craidd a phynciau di-graidd;
- Manylion pa iaith y dylid ei hystyried at ddibenion asesu statudol ar gyfer pob disgybl sy'n astudio mwy nag un iaith dramor. Fodd bynnag, rhaid adrodd i'r rhieni am gynnydd y disgybl ym mhob un o'r ieithoedd a astudir;
- Sylwadau cryno yn nodi'r hyn y mae'r canlyniadau yn ei ddangos am gynnydd y disgybl ym mhob pwnc, gan dynnu sylw at gryfderau a gwendidau penodol.

## 2.25 Gwybodaeth gymharol yr ysgol a gwybodaeth gymharol genedlaethol

Yn unol â'r Rheoliadau, mae'n ofynnol i adroddiadau cymharol safonol a bennir gael eu cyhoeddi ym mhrosbectws yr ysgol, eu darparu i'r llywodraethwyr i'w cynnwys yn adroddiadau blynyddol y llywodraethwyr a'u darparu gyda phob adroddiad blynyddol ar gyfer rhieni neu ddisgyblion sy'n oedolion.

Ar gyfer diwedd y CS, ac AA CA 2 a CA 3, darperir yr adroddiad cymharol safonol a bennir gan Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng DEWi **mewn dwy ran**:

- Pan gaiff data CDC ar gyfer diwedd y CS ac AA CA 2 a CA 3 eu lanlwytho erbyn 13eg Mehefin, bydd **Adroddiadau Cymharol Ysgolion** (heb Feincnodi) ar gael i'w lawrlwytho o DEWi. Bydd y rhain yn dangos canlyniadau'r ysgol o'u cymharu â chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol ar gyfer yr ALI a Chymru, ynghyd â dadansoddiad o'r canlyniadau yn ystod y 5 mlynedd blaenorol. Noder, lle mae llai na 5 mlynedd o ganlyniadau ar gael, y bydd rhagor o wybodaeth yn yr adroddiadau hyn wrth i amser fynd heibio.
- Pan gaiff canlyniadau cenedlaethol diwedd y CS a CA 2 a CA 3 eu cyhoeddi, bydd **Adroddiadau Cymharol Ysgolion** (gan gynnwys Meincnodi) ar gael i'w lawrlwytho o DEWi. Bydd y rhain yn dangos canlyniadau'r ysgol o'u cymharu â'r ALI perthnasol a Chymru, a bydd ynddynt ddadansoddiad yn unol â meincnodau prydau ysgol am ddim.

## 2.26 Y System Drosglwyddo Gyffredin

Yn ôl y Rheoliadau sy’n ymdrin â’r System Drosglwyddo Gyffredin, sef Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011, mae gofyn i bennaeth ysgol a gynhelir y mae disgybl yn trosglwyddo ohoni, anfon i ysgol newydd y disgybl set safonol o wybodaeth am y disgybl, ar fformat electronig, i’w rhoi yn uniongyrchol i mewn i System Gwybodaeth Reoli’r ysgol newydd.

### Adroddiadau i’r ysgolion sy’n derbyn disgyblion

Pan fydd disgybl yn symud o ysgol a gynhelir i ysgol newydd, gan gynnwys ysgol annibynnol, dylid cyflwyno adroddiad am gyraeddiadau’r disgybl, os yw hynny’n rhesymol ymarferol, i bennaeth yr ysgol dderbyn. Mae’n ofynnol gwneud hyn o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl tynnu enw’r disgybl oddi ar gofrestr ei hen ysgol, neu o fewn 15 diwrnod ysgol ar ôl derbyn cais am yr adroddiad gan yr ysgol newydd.

Rhaid i’r adroddiad gynnwys:

- canlyniadau AA statudol y disgybl yn y meysydd dysgu gorfodol neu yn y pynciau craidd fesul pwnc a tharged cyrhaeddiad (os cynhyrchir gwybodaeth o’r fath) ym mhob un o’r Cyfnodau Allweddol blaenorol (os yw’r wybodaeth honno ar gael), a’r flwyddyn ysgol pan wnaed yr asesiadau;

- asesiadau diweddaraf yr athrawon o gynnydd y disgybl yn erbyn y targedau cyrhaeddiad ym mhob un o’r meysydd dysgu gorfodol neu ym mhob un o’r pynciau craidd perthnasol ers yr asesiad statudol diwethaf neu ers i’r disgybl gyrraedd yr ysgol sy’n cyflwyno’r adroddiad, pa un bynnag yw’r diweddaraf;

- os yw’r disgybl ar ddiwedd CA 3, lefelau asesiad statudol gan athrawon mewn Cymraeg ail iaith, iaith dramor fodern, dylunio a thechnoleg, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, hanes, daearyddiaeth, celf a dylunio, cerddoriaeth ac addysg gorfforol, fesul pwnc, a lle bo modd, fesul targed cyrhaeddiad.

Gall hyn ddangos pa lefelau ar raddfa’r CS neu’r cwricwlwm cenedlaethol y mae’r disgybl yn gweithio arnynt neu ddangos cynnydd y disgybl yn fwy cyffredinol o fewn pob targed cyrhaeddiad. Lle bo hynny’n briodol, dylai nodi a yw cyraeddiadau’r disgybl wedi datblygu’n sylweddol ers yr asesiad statudol diwethaf.

Nid oes dyletswydd i ddarparu adroddiad o’r fath i ysgol newydd y disgybl o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os yw’r disgybl wedi ei gofrestru yn yr ysgol ers llai na phedair wythnos. Er hynny, mewn achos o’r fath, dylai’r pennaeth wneud pob ymdrech i roi i’r ysgol newydd unrhyw adroddiadau a drosglwyddwyd o ysgol neu ysgolion blaenorol y disgybl;

- os nad yw’n rhesymol ymarferol i’r pennaeth ddod o hyd i fanylion ysgol newydd y disgybl. Fodd bynnag, dylai’r pennaeth o leiaf ffonio rhieni’r disgybl ac, os yw eu cyfeiriad yn hysbys, ysgrifennu atynt i holi ymhle y bydd y disgybl yn parhau â’i addysg.

Dosbarthwyd canllawiau ar y System Drosglwyddo Gyffredin i ysgolion ym mis Mai 2006, Cylchlythyr Rhif 18/2006 'Cofnodion Addysgol, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin'.

Ceir mwy o gyfarwyddyd a gwybodaeth am y System Drosglwyddo Gyffredin ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/ims/dataexchange/school2schoolcommon/?skip=1&lang=cy.

## 2.27 Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3

Mae angen i athrawon mewn ysgolion CA 2 a CA 3 gytuno ar yr amser mwyaf priodol i drosglwyddo gwybodaeth asesu. Yn gyffredinol, ar gyfer asesiad athrawon, dylai hyn ddigwydd cyn diwedd y tymor cyn trosglwyddo.

Bydd cysylltiadau rhwng athrawon BCC 6 a BCC 7, a gosod targedau rhwng disgyblion ac athrawon ar ddechrau BCC 7, yn debygol o helpu i sicrhau parhad rhwng y ddau CA.

# Atodiad A: Taflen Canlyniadau Disgyblion

## Profion Darllen a Rhifedd Llywodraeth Cymru

Taflen Canlyniadau Disgyblion - Prawf Rhifedd (Gweithdrefnol)

Enw'r Disgybl:

Dyddiad geni:

Grwp Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol:

Dyddiad y prawf:

Oedran ar ddyddiad y prawf:

Enw'r ysgol:


Mae'r siart isod yn nodi mai 'X' oedd sgôr safonedig eich plentyn ym mhrawf rhifedd (gweithdrefnol) eleni. Mae sgôr safonedig yn ei gwneud yn bosibl cymharu canlyniad prawf eich plentyn â chanlyniadau plant eraill yr un oedran yng Nghymru eleni.

| | | |
|---|---|---|
| Mae canlyniadau'r prawf yn awgrymu y byddai help ychwanegol gyda rhifedd o fudd. | Mae canlyniadau'r prawf yn ddigon tebyg i ganlyniadau'r rhan fwyaf o blant yr un oed. Parhau i ddatblygu sgiliau rhifedd mewn amrywiol gyd-destunau. | Mae canlyniadau'r prawf yn uwch na chanlyniadau'r rhan fwyaf o blant yr un oed. Datblygu sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau mwy heriol. |

<70-75 76-85 85-115 115-125
126-140+

Sgôr safonedig:

Mae'r siart hon yn dangos y cynnydd mewn rhifedd a fesurwyd gan brofion 2013 a 2014. Os na ddangosir sgôr, mae'n golygu na chymerwyd prawf y flwyddyn honno neu nad oedd modd dyfarnu sgôr cynnydd yn yr achos hwnnw. Gweler y nodiadau.




* Sgôr cynnydd yn 2013

\+ Sgôr cynnydd yn 2014

## Profion Darllen a Rhifedd Llywodraeth Cymru

Taflen Canlyniadau Disgyblion - Prawf Darllen Saesneg

Enw'r Disgybl:

Dyddiad geni:

Grwp Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol:

Dyddiad y prawf:

Oedran ar ddyddiad y prawf:

Enw’r ysgol:

Mae'r siart isod yn nodi mai 'X' oedd sgôr safonedig eich plentyn ym mhrawf darllen Saesneg eleni. Mae sgôr safonedig yn ei gwneud yn bosibl cymharu canlyniad prawf eich plentyn â chanlyniadau plant eraill yr un oedran yng Nghymru eleni.

Mae canlyniadau'r prawf yn awgrymu y byddai help ychwanegol i ddarllen o fudd


Mae canlyniadau'r prawf yn ddigon tebyg i ganlyniadau'r rhan fwyaf o blant yr un oed. Parhau i ddatblygu sgiliau darllen mewn amrywiol gyd-destunau.

Mae canlyniadau'r prawf yn uwch na chanlyniadau'r rhan fwyaf o blant yr un oed. Datblygu sgiliau darllen mewn cyd-destunau mwy heriol.

<70-75 76-85 85-115 115-125
126-140+

Sgôr safonedig:

Mae'r siart hon yn dangos y cynnydd mewn darllen a fesurwyd gan brofion 2013 a 2014. Os na ddangosir sgôr, mae'n golygu na chymerwyd prawf y flwyddyn honno neu nad oedd modd dyfarnu sgôr cynnydd yn yr achos hwnnw. Gweler y nodiadau.



## Profion Darllen a Rhifedd Llywodraeth Cymru

Taflen Canlyniadau Disgyblion - Prawf Darllen Cymraeg

Enw'r Disgybl:

Dyddiad geni:

Grwp Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol:

Dyddiad y prawf:

Oedran ar ddyddiad y prawf:

Enw'r ysgol:

Mae'r siart isod yn nodi mai 'X' oedd sgôr safonedig eich plentyn ym mhrawf darllen Cymraeg eleni. Mae sgôr safonedig yn ei gwneud yn bosibl cymharu canlyniad prawf eich plentyn â chanlyniadau plant eraill yr un oedran yng Nghymru eleni.

Mae canlyniadau'r prawf yn awgrymu y byddai help ychwanegol i ddarllen o fudd.


Mae canlyniadau'r prawf yn ddigon tebyg i ganlyniadau'r rhan fwyaf o blant yr un oed. Parhau i ddatblygu sgiliau darllen mewn amrywiol gyd-destunau.

Mae canlyniadau'r prawf yn uwch na chanlyniadau'r rhan fwyaf o blant yr un oed. Datblygu sgiliau darllen mewn cyd-destunau mwy heriol.

<70-75 76-85 85-115 115-125
126-140+

Sgôr safonedig:

Mae'r siart hon yn dangos y cynnydd mewn darllen a fesurwyd gan brofion 2013 a 2014. Os na ddangosir sgôr, mae'n golygu na chymerwyd prawf y flwyddyn honno neu nad oedd modd dyfarnu sgôr cynnydd yn yr achos hwnnw. Gweler y nodiadau.




* Sgôr cynnydd yn 2013

\+ Sgôr cynnydd yn 2014

Taflen Canlyniadau Disgyblion - Prawf Rhifedd (Rhesymu)

Enw'r Disgybl:

Dyddiad geni:

Grwp Blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol:

Dyddiad y prawf:

Oedran ar ddyddiad y prawf:

Enw'r ysgol:

Mae'r siart isod yn nodi mai 'X' oedd sgôr safonedig eich plentyn ym mhrawf rhifedd (rhesymu) eleni. Mae sgôr safonedig yn ei gwneud yn bosibl cymharu canlyniad prawf eich plentyn â chanlyniadau plant eraill yr un oedran yng Nghymru eleni.

| | | |
|---|---|---|
| Mae canlyniadau'r prawf yn awgrymu y byddai help ychwanegol gyda rhifedd o fudd. | Mae canlyniadau'r prawf yn ddigon tebyg i ganlyniadau'r rhan fwyaf o blant yr un oed. Parhau i ddatblygu sgiliau rhifedd mewn amrywiol gyd-destunau. | Mae canlyniadau'r prawf yn uwch na chanlyniadau'r rhan fwyaf o blant yr un oed. Datblygu sgiliau rhifedd mewn cyd-destunau mwy heriol. |

<70-75 76-85 85-115 115-125
126-140+

Sgôr safonedig:

Eleni yw'r flwyddyn gyntaf i blant sefyll y prawf rhifedd rhesymu. O'r flwyddyn nesaf, bydd yn bosibl rhoi gwybodaeth am y cynnydd a wnaed dros gyfnod.

## Nodiadau

Bob haf, mae disgyblion blynyddoedd 2-9 yn sefyll profion darllen a rhifedd cenedlaethol. Mae yna brofion darllen Cymraeg a Saesneg. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae disgyblion blynyddoedd 4-9 yn sefyll profion Cymraeg a Saesneg; dim ond y prawf darllen Cymraeg y mae disgwyl i ddisgyblion blynyddoedd 2 a 3 ei sefyll, ond gall ysgolion ddewis cofrestru disgyblion blwyddyn 3 ar gyfer y ddau brawf.

Mae yna ddau brawf rhifedd; mae'r ddau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r prawf rhifedd gweithdrefnol yn asesu sgiliau adio, tynnu, lluosi a rhannu. Mae'r prawf rhifedd rhesymu yn asesu pa mor dda y mae disgybl yn defnyddio sgiliau rhifedd i ddatrys problemau bob dydd.

Mae canlyniadau'r profion yn ychwanegu at yr wybodaeth sydd gan athrawon eisoes am sgiliau darllen a rhifedd eich plentyn ar sail eu hasesiadau eu hunain. Gall canlyniadau'r prawf helpu i nodi ffyrdd o hyrwyddo addysg eich plentyn yn y dyfodol.

Dim ond hyn a hyn o wybodaeth am allu eich plentyn y mae prawf yn gallu ei asesu. Efallai na fydd plentyn yn perfformio i eithaf ei allu ar ddiwrnod y prawf. Bydd adroddiad ysgol blynyddol eich plentyn yn rhoi darlun llawnach o'i allu mewn darllen a rhifedd.

### Sgoriau safonedig

Mae sgôr safonedig y profion cenedlaethol yn dweud wrthych pa mor dda y mae eich plentyn wedi gwneud o gymharu â phlant eraill yr un oedran a gymerodd y prawf ar yr un pryd. Cyfartaledd y sgôr safonedig yw 100 a bydd tua dwy ran o dair o'r plant sy'n cymryd y prawf yn sgorio rhwng 85 a 115. Bydd sgôr safonedig sy'n llai nag 85 yn awgrymu peth anhawster ym maes darllen neu rifedd, felly.

Mewn ambell achos, efallai y bydd yr amrywiaeth anhawster yng nghwestiynau'r prawf yn golygu nad yw'n bosibl cofrestru sgôr safonedig plentyn y mae ei sgiliau darllen yn datblygu'n arafach na'r disgwyl. Nodir y sgôr fel 'llai na 70'. Bydd athro eich plentyn wedyn yn defnyddio dulliau eraill i asesu sut mae ei sgiliau yn datblygu.

Yn yr un modd, nodir 'mwy na 140' ar gyfer disgyblion sy'n cyflawni i lefel uchel iawn gan nad yw'r prawf yn ei gwneud yn bosibl mesur pen draw eu sgiliau. Unwaith eto, bydd athrawon yn gallu darparu mwy o wybodaeth am allu eich plentyn.

### Sgoriau cynnydd

Gan fod pob plentyn yng Nghymru o flwyddyn 2 i flwyddyn 9 yn sefyll y profion, gellir defnyddio 'graddfa sgôr cynnydd' i ddangos sut mae eu sgiliau darllen a rhifedd yn gwella wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Cyn belled bod eich plentyn yn cymryd y profion bob blwyddyn, byddwch yn gallu tracio eu cynnydd yn y sgiliau y mae'r profion yn eu mesur. Bydd plant yn gwneud cynnydd ar wahanol gyfraddau ac, i rai plant, bydd cynnydd bach mewn sgoriau cynnydd yn gyflawniad mawr. Mae'n bwysig nodi hefyd, os nad yw'r sgôr cynnydd wedi codi, nid yw hynny'n golygu nad yw eich plentyn wedi gwneud cynnydd o gwbl; efallai nad oedd eu perfformiad yn y prawf yn ddarlun gwirioneddol o'u gallu. Bydd athro eich plentyn yn gallu rhoi asesiad cyffredinol ichi o'u cynnydd yn eich cyfarfod rheolaidd â hi/ef.

Mae'r llinell ddi-dor ar y siartiau sgôr cynnydd yn nodi man canol sgoriau cynnydd pob grŵp blwyddyn. Byddai disgwyl i sgôr hanner y plant sy'n cymryd y profion fod rhwng y ddwy linell ddotiog. Byddai sgoriau cynnydd chwarter y disgyblion ym mhob grŵp

blwyddyn uwchlaw'r llinell ddotiog uchaf a sgoriau cynnydd chwarter arall islaw'r llinell ddotiog isaf.

Ni ellir rhoi sgôr cynnydd cywir ar gyfer y plant sydd ar ddau begwn ystod gallu eu grŵp blwyddyn, ac wrth gynllunio ar gyfer camau nesaf eu haddysg, bydd athrawon yn rhoi ystyriaeth i dystiolaeth arall o'u cynnydd.

# Atodiad B: Adroddiadau cymharol ysgolion (heb feincnodi)

## Canlyniadau Diwedd y Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau Athrawon Cyfnodau Allweddol 2 a 3


**This report uses data for 2011 for LA and Wales comparative information**

**Green Abbey Primary School** **LA/School no: XXX/XXXX**
**Local Authority Name**


**School comparative information: Foundation Phase Outcomes 2012**

**Percentage of boys, girls, and pupils achieving at least the expected outcome (Outcome 5+):**

| | Boys | | | Girls | | | Pupils | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | School 2012 | LA 2011 | Wales 2011 | School 2012 | LA 2011 | Wales 2011 | School 2012 | LA 2011 | Wales 2011 |
| PSD | 70 | - | - | 90 | - | - | 87 | - | - |
| LCW | 0 | - | - | 0 | - | - | 0 | - | - |
| LCE | 80 | - | - | 100 | - | - | 87 | - | - |
| MDT | 90 | - | - | 100 | - | - | 96 | - | - |
| FPOI | 60 | - | - | 80 | - | - | 83 | - | - |




**School Performance over time (2007 - 2012)**




**Notes:**

1. - = No historical data available

2. Areas of learning: PSD = Personal and social development, well-being and cultural diversity; LCW = Language, literacy and communication skills (in Welsh); LCE = Language, literacy and communication skills (in English); MDT = Mathematical development; FPOI = Foundation Phase Outcome Indicator. To achieve the FPOI, a pupil must achieve at least the expected outcome (Outcome 5+) in both PSD and MDT and either LCW or LCE.

3. If there were no pupils eligible for assessment in a subject for a particular year the graph will discontinue and show a gap for that year.

# Atodiad C: Adroddiadau cymharol ysgolion (gan gynnwys meincnodi)

## Canlyniadau Diwedd y Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau Athrawon Cyfnodau Allweddol 2 a 3


**This report uses data for 2011 for LA and Wales comparative information**

**Green Abbey Secondary School** — **LA/School no: XXX/XXXX**
**Local Authority Name**


## School comparative information: National Curriculum Assessments 2011
## Key Stage 3

**Percentage of boys, girls, and pupils achieving at least the expected level (Level 5+):**

| | Boys | | | Girls | | | Pupils | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | School 2011 | LA 2011 | Wales 2011 | School 2011 | LA 2011 | Wales 2011 | School 2011 | LA 2011 | Wales 2011 |
| English | 70 | 68 | 69 | 90 | 88 | 89 | 87 | 78 | 79 |
| Welsh | 55 | 74 | 63 | 75 | 94 | 83 | 87 | 84 | 73 |
| Maths | 80 | 71 | 70 | 100 | 91 | 90 | 87 | 81 | 80 |
| Science | 90 | 75 | 75 | 100 | 95 | 95 | 96 | 85 | 85 |
| CSI | 60 | 64 | 64 | 80 | 84 | 84 | 83 | 74 | 74 |




## School Performance over time (2007 - 2011)




## Contextual Information

Benchmarked against schools with a similar percentage of pupils eligible for free school meals.
School's results shown in greyed boxes. Column headings refer to…

Quartile 1 School is in the top 25 per cent.
Quartile 2 School is in the top 50 per cent but not the top 25 per cent.
Quartile 3 School is in the bottom 50 per cent but not the bottom 25 per cent.
Quartile 4 School is in the bottom 25 per cent.

Free School Meal Group
**Over 8 per cent and up to 16 per cent eligible for FSM**

| | *Quartile 4* | Lower Quartile Boundary | *Quartile 3* | Median Boundary | *Quartile 2* | Upper Quartile Boundary | *Quartile 1* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| English | | 76 | | 83 | **87** | 91 | |
| Welsh | | 65 | | 80 | **87** | 91 | |
| Maths | | 79 | **87** | 88 | | 93 | |


**This report uses data for 2011 for LA and Wales comparative information**

**Green Abbey Primary School** **LA/School no: XXX/XXXX**
**Local Authority Name**


# School comparative information: National Curriculum Assessments 2011
# Key Stage 2

**Percentage of boys, girls, and pupils achieving at least the expected level (Level 4+):**

| | **Boys** | | | **Girls** | | | **Pupils** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | School 2011 | LA 2011 | Wales 2011 | School 2011 | LA 2011 | Wales 2011 | School 2011 | LA 2011 | Wales 2011 |
| English | 70 | 68 | 69 | 90 | 88 | 89 | 87 | 78 | 79 |
| Welsh | 55 | 74 | 63 | 75 | 94 | 83 | 87 | 84 | 73 |
| Maths | 80 | 71 | 70 | 100 | 91 | 90 | 87 | 81 | 80 |
| Science | 90 | 75 | 75 | 100 | 95 | 95 | 96 | 85 | 85 |
| CSI | 60 | 64 | 64 | 80 | 84 | 84 | 83 | 74 | 74 |




## School Performance over time (2007 - 2011)




## Contextual Information

Benchmarked against schools with a similar percentage of pupils eligible for free school meals.
School's results shown in greyed boxes. Column headings refer to…

Quartile 1 School is in the top 25 per cent.
Quartile 2 School is in the top 50 per cent but not the top 25 per cent.
Quartile 3 School is in the bottom 50 per cent but not the bottom 25 per cent.
Quartile 4 School is in the bottom 25 per cent.

Free School Meal Group
**Over 8 per cent and up to 16 per cent eligible for FSM**

| | *Quartile 4* | Lower Quartile Boundary | *Quartile 3* | Median Boundary | *Quartile 2* | Upper Quartile Boundary | *Quartile 1* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| English | | 76 | | 83 | **87** | 91 | |
| Welsh | | 65 | | 80 | **87** | 91 | |
| Maths | | 79 | **87** | 88 | | 93 | |
| Science | | 83 | | 91 | | 95 | **96** |
| CSI | | 72 | | 80 | **83** | 88 | |

The benchmarks have been calculated using a three-year average for Free School Meal data.

**Notes:**

1. Figures for Welsh refer to attainment in Welsh first language only.
2. CSI = Core Subject Indicator. To achieve the CSI a pupil must achieve at least the expected level 4 in both Mathematics and Science and either English or Welsh first language.
3. If there were no pupils eligible for assessment in a subject for a particular year the graph will discontinue and show a gap for that year.

# Atodiad D: Cyfrifo lefelau pwnc asesiad athrawon – Cyfnod Allweddol 2

Wrth gyfrifo'r lefel pwnc:

- Caiff targedau cyrhaeddiad **Saesneg** (llafaredd, darllen ac ysgrifennu) eu pwysoli'n gyfartal

- Caiff targedau cyrhaeddiad **Cymraeg** eu pwysoli fel a ganlyn:
  - ❖ Llafaredd (Cy1) 4
  - ❖ Darllen (Cy2) 3
  - ❖ Ysgrifennu (Cy3) 3

- Caiff targedau cyrhaeddiad **Cymraeg Ail Iaith** eu pwysoli fel a ganlyn:
  - ❖ Llafaredd (Ca1) 7
  - ❖ Darllen (Ca2) 1.5
  - ❖ Ysgrifennu (Ca3) 1.5

Noder: er mwyn gwahaniaethu rhwng lefelau Deilliannau 1, 2 a 3 newydd y Cwricwlwm Cenedlaethol, pennwyd gwerthoedd rhifiadol ar eu cyfer:

| Graddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol | Cod Gweinyddol | Gwerth Rhifiadol |
|---|---|---|
| Deilliant 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol | A | 0.75 |
| Deilliant 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol | B | 0.50 |
| Deilliant 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol | C | 0.25 |

Wrth gyfrifo lefelau pwnc o lai nag 1, dylid talgrynnu'r rhif i'r 0.25 agosaf. Dylai Systemau Gwybodaeth Reoli ysgolion wneud y gwaith cyfrifo ar ôl i ddata'r targed cyrhaeddiad gael eu cofnodi.

Wrth gyfrifo lefelau pwnc o fwy nag 1, dylid talgrynnu haneri i fyny i'r rhif cyfan nesaf. Dylai Systemau Gwybodaeth Reoli ysgolion wneud y gwaith cyfrifo ar ôl i ddata'r targed cyrhaeddiad gael eu cofnodi.

Os na ellir asesu disgybl yn un neu ddau o'r targedau cyrhaeddiad a'i fod yn cael dyfarniad D neu N, bydd y disgybl yn cael 0 ar gyfer y targed cyrhaeddiad hwnnw ond bydd hefyd yn cael marc am gyfanswm y cydrannau eraill.

**Enghraifft ar gyfer Saesneg**

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (1.5 ÷ 3 = 0.5). Gan fod y lefel pwnc yn llai nag 1, talgrynnwch i'r 0.25 agosaf. Mae'r dysgwr hwn wedi cyrraedd Deilliant 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol.

| Targed Cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysoliad (b) | Lefel x Pwysoliad (c) |
|---|---|---|---|
| Llafaredd (En1) | NCO1 / C | 1 | 0.25 |
| Darllen (En2) | NCO2 / B | 1 | 0.50 |
| Ysgrifennu (En3) | NCO3 / A | 1 | 0.75 |
| **Cyfanswm** | | **3** | **1.5** |

**Enghraifft ar gyfer Cymraeg**

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (47 ÷ 10 = 4.7). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r dysgwr hwn wedi cyrraedd Lefel 5.

| Targed Cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysoliad (b) | Lefel x Pwysoliad (c) |
|---|---|---|---|
| Llafaredd (Cy1) | 5 | 4 | 20 |
| Darllen (Cy2) | 5 | 3 | 15 |
| Ysgrifennu (Cy3) | 4 | 3 | 12 |
| **Cyfanswm** | | **10** | **47** |

**Enghraifft ar gyfer Cymraeg Ail Iaith**

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (44 ÷ 10 = 4.4). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r dysgwr hwn wedi cyrraedd Lefel 4.

| Targed Cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysoliad (b) | Lefel x Pwysoliad (c) |
|---|---|---|---|
| Llafaredd (Ca1) | 5 | 7 | 35 |
| Darllen (Ca2) | 3 | 1.5 | 4.5 |
| Ysgrifennu (Ca3) | 3 | 1.5 | 4.5 |
| **Cyfanswm** | | **10** | **44** |

# Atodiad E: Cyfrifo lefelau pwnc asesiad athrawon – Cyfnod Allweddol 3

Wrth gyfrifo'r lefel pwnc:

- Caiff targedau cyrhaeddiad **Saesneg** (llafaredd, darllen ac ysgrifennu) eu pwysoli'n gyfartal

- Caiff targedau cyrhaeddiad **Cymraeg** eu pwysoli fel a ganlyn:
  - ❖ Llafaredd (Cy1) 4
  - ❖ Darllen (Cy2) 3
  - ❖ Ysgrifennu (Cy3) 3

- Caiff targedau cyrhaeddiad **Cymraeg Ail Iaith** eu pwysoli fel a ganlyn:
  - ❖ Llafaredd (CA1) 3
  - ❖ Darllen (CA2) 1
  - ❖ Ysgrifennu (CA3) 1

- Caiff targedau cyrhaeddiad **Ieithoedd Tramor Modern** eu pwysoli fel a ganlyn:
  - ❖ Llafaredd (ML1) 2
  - ❖ Darllen (ML2) 1
  - ❖ Ysgrifennu (ML3) 1

Noder: er mwyn gwahaniaethu rhwng lefelau Deilliannau 1, 2 a 3 newydd y Cwricwlwm Cenedlaethol, pennwyd gwerthoedd rhifiadol ar eu cyfer:

| **Graddfa'r Cwricwlwm Cenedlaethol** | **Cod Gweinyddol** | **Gwerth Rhifiadol** |
|---|---|---|
| Deilliant 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol | A | 0.75 |
| Deilliant 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol | B | 0.50 |
| Deilliant 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol | C | 0.25 |

Wrth gyfrifo lefelau pwnc o lai nag 1, dylid talgrynnu'r rhif i'r 0.25 agosaf. Dylai Systemau Gwybodaeth Reoli ysgolion wneud y gwaith cyfrifo ar ôl i ddata'r targed cyrhaeddiad gael eu cofnodi.

Wrth gyfrifo lefelau pwnc o fwy nag 1, dylid talgrynnu haneri i fyny i'r rhif cyfan nesaf. Dylai Systemau Gwybodaeth Reoli ysgolion wneud y gwaith cyfrifo ar ôl i ddata'r targed cyrhaeddiad gael eu cofnodi.

Os na ellir asesu disgybl yn un neu ddau o'r targedau cyrhaeddiad a'i fod yn cael dyfarniad D neu N, bydd y disgybl yn cael 0 ar gyfer y targed cyrhaeddiad hwnnw ond bydd hefyd yn cael marc am gyfanswm y cydrannau eraill.

**Enghraifft ar gyfer Cymraeg**

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (47 ÷ 10 = 4.7). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r dysgwr hwn wedi cyrraedd Lefel 5.

| Targed Cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysoliad (b) | Lefel x Pwysoliad (c) |
|---|---|---|---|
| Llafaredd (Cy1) | 5 | 4 | 20 |
| Darllen (Cy2) | 5 | 3 | 15 |
| Ysgrifennu (Cy3) | 4 | 3 | 12 |
| **Cyfanswm** | | **10** | **47** |

**Enghraifft ar gyfer Cymraeg Ail Iaith**

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (34÷ 5 = 6.8). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 7.

| Targed Cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysoliad (b) | Lefel x Pwysoliad (c) |
|---|---|---|---|
| Llafaredd (Ca1) | 7 | 3 | 21 |
| Darllen (Ca2) | 7 | 1 | 7 |
| Ysgrifennu (Ca3) | 6 | 1 | 6 |
| **Cyfanswm** | | **5** | **34** |

**Enghraifft ar gyfer Iaith Dramor Fodern**

I gyfrifo'r lefel pwnc ar gyfer y disgybl hwn, cyfrifwch gyfanswm colofn (c) ac yna ei rannu â chyfanswm colofn (b) (25 ÷ 4 = 6.25). Talgrynnwch i'r rhif cyfan agosaf. Mae'r disgybl hwn wedi cyrraedd Lefel 6.

| Targed Cyrhaeddiad | Lefel (a) | Pwysoliad (b) | Lefel x Pwysoliad (c) |
|---|---|---|---|
| Llafaredd (ML1) | 6 | 2 | 12 |
| Darllen (ML2) | 6 | 1 | 6 |
| Ysgrifennu (ML3) | 7 | 1 | 7 |
| **Cyfanswm** | | **4** | **25** |